

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 19 Ionawr 2022

Gweinidog yr Economi a'r Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip

Memorandwm ar gynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23

1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am ein cynlluniau gwariant fel Gweinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip mewn perthynas â'r cyllidebau diwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth a chwaraeon o fewn ein portffolio. Amlinellir y cynlluniau gwariant yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23, a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r papur hwn hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Mae diwylliant, treftadaeth, y diwydiannau creadigol, yr amgylchedd hanesyddol a chwaraeon yn elfennau hanfodol o'n bywyd cenedlaethol ac yn rhan annatod o'n llesiant meddyliol a chorfforol unigol a thorfol. Mae amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, clybiau celfyddydau a chwaraeon, cyfleusterau a safleoedd hanesyddol yn ganolbwynt i lawer o gymunedau ledled Cymru. Mae bron ein holl gymorth i'r sectorau hyn yn helpu pobl i gael mynediad at yr elfennau gorau o Gymru a'u mwynhau, gan wella ansawdd bywyd, yn ogystal â'n haddysg, ein hanes, ein heconomi ymwelwyr a'n lle yn y byd. Mae diwylliant yn un o Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n hanfodol er mwyn cyflawni'r chwe nod arall, o ran yr hyn y gall gyfrannu tuag at fywyd ehangach a'r economi.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud a sut y byddwn yn gwneud hynny

Mae [Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026](#) yn cydnabod y rôl hanfodol y mae'r sectorau hyn yn ei chyflawni. Dros y tair blynedd nesaf, rydym yn dyrannu £533.311 miliwn i sectorau'r celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a threftadaeth. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn prosiectau arwyddocaol penodol - er enghraifft, Theatr Clwyd, Amgueddfa Bêl-droed Cymru, yr Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol, nifer o henebion Cadw ac Amgueddfa'r Gogledd. Rydym hefyd wedi ymrwmo i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon i gynyddu lefelau cyfranogi er mwyn cefnogi iechyd a llesiant y genedl, yn enwedig wrth inni adfer o'r pandemig. Bydd y gwariant hwn yn cefnogi set eang o themâu, gan gynnwys datgarboneiddio a digideiddio, cydraddoldeb a chefnogi ein sectorau lleol, yn ogystal â chyflawni ein rhwymedigaethau statudol o ran iechyd a diogelwch. Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mawr o ran mynediad a chyfranogiad, yn bennaf anghydraddoldebau hiliol ac anghydraddoldebau yng nghymunedau Gogledd Cymru - gan sicrhau bod ein sefydliadau diwylliannol a threftadaeth yn fwy hygyrch, eu bod yn adlewyrchu ein cymunedau a'n hanesion yn briodol, yn ychwanegu gwerth at fywydau pobl ledled Cymru ac yn hyrwyddo'r economi ymwelwyr.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgysylltu â'r sectorau celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a threftadaeth er mwyn datblygu strategaeth ddiwylliant newydd, sy'n flaenoriaeth benodol yn y diweddariad i'r Rhaglen Lywodraethu ym mis Rhagfyr 2021. Bydd hyn yn gosod y fframwaith ar gyfer ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol a sut y byddwn yn cynnal ac yn datblygu'r

sectorau. Cafodd y gwaith ar ddiweddarau blaenoriaethau diwylliannol ei ohirio yn ystod y pandemig er mwyn canolbwyntio adnoddau ar yr ymateb i'r Coronafeirws. Pan gyhoeddwyd y Rhaglen Lywodraethu gychwynnol, cytunodd y Dirprwy Weinidog y dylai gwaith i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd aros nes bod amodau iechyd y cyhoedd wedi gwella'n ddigonol, er mwyn caniatáu iddi gael ei datblygu fel blaenoriaeth yn 2022. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn ystyried yr opsiynau ar gyfer cwmpas y strategaeth newydd, yng nghyd-destun y diweddariad i'r Rhaglen Lywodraethu a'r adferiad o'r pandemig, gan ystyried i ba raddau y gallwn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn flaenorol wrth inni symud ymlaen.

Darperir y buddsoddiad yn bennaf drwy ein hasiantaethau mewnol (Cadw a Chymru Creadigol) a chyrrff a noddir (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru (7 amgueddfa), Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru). Mae'r buddsoddiad yn Cadw a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru hefyd yn cyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer treftadaeth, ochr yn ochr â buddsoddiad cyfalaf mewn amgueddfeydd lleol, archifau a llyfrgelloedd drwy ein rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid. Mae Cymru Greadigol yn arwain ar weithgaredd a pholisi ar gyfer y sectorau creadigol ac yn cydlynu'r gweithgaredd hwnnw. Mae'r sefydliadau hyn yn cyflawni blaenoriaethau trawslywodraethol i gefnogi strategaethau allweddol gan gynnwys [Cymru Sero Net](#), y [Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol](#) a [Cymraeg 2050](#). Mae pob un o'r cyrrff a noddir wedi ymrwymo i leihau allyriadau carbon gan ddarparu adroddiadau cynaliadwyedd manwl yn eu cyfrifon blynyddol.

Bydd Cadw yn cwblhau'r buddsoddiad mawr cyfredol yng nghostyll Caernarfon a Chaerffili a fydd yn gwella profiad yr ymwelydd ac yn gwneud yr henebion yn fwy hygyrch. Bydd buddsoddiad cyfalaf pellach hefyd yn caniatáu i Cadw barhau â'i gyfrifoldeb statudol i warchod a chynnal yr henebion dan ei ofal, eu cadw'n ddiogel i bobl ymweld â nhw a lleihau ôl troed carbon ei ganolfannau ymwelwyr.

Mae chwaraeon yn rhan gynhenid o hunaniaeth ein cenedl. Mae'n dod â'n cymunedau at ei gilydd ac yn rhoi sgiliau trosglwyddadwy i bobl er mwyn gwella'r hyn a ddysgir ganddynt a dod o hyd i swydd neu yrfa. Drwy'r miloedd lawer o weithgareddau ledled Cymru, mae chwaraeon hefyd yn cefnogi twf cymunedau Cymraeg eu hiaith drwy ddarparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol fel iaith fodern, fyw. Byddwn yn parhau i gefnogi ein cymunedau, ein clybiau a'n cyfleusterau i fynd i'r afael ag effaith y pandemig, i wella ein hymdeimlad o hunaniaeth, a'u llesiant corfforol a meddyliol, ac i sicrhau bod y sector yn ychwanegu gwerth at ein hiechyd a'n hapusrwydd. Roedd y cynlluniau gwariant ar gyfer chwaraeon yn cynnal lefelau buddsoddi yn y gyllideb gyfalaf tair blynedd, gan alluogi Llywodraeth Cymru i barhau i fuddsoddi, drwy ei phartner cyflawni, Chwaraeon Cymru, yn y bobl a'r lleoedd er mwyn darparu cyfleoedd cynhwysol a chyfartal i bobl fyw bywydau iach ac egnïol, ac i wireddu eu potensial yn y byd chwaraeon.

Mae gennym gyfrifoldeb statudol i barhau i gefnogi ein cyrrff diwylliannol cenedlaethol a noddir, yn ogystal â'r sectorau diwylliannol lleol, sydd i gyd yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth ac ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu, gan arwain at well ansawdd bywyd i gynifer o'n poblogaeth. Ochr yn ochr â'n rhwymedigaethau statudol rheolaidd, rydym wedi gofyn i'r holl gyrrff hyn i roi blaenoriaeth i wella mynediad a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, datgarboneiddio a gwelliannau digidol dros y tair blynedd nesaf.

Darperir buddsoddiad cyfalaf i'r sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol drwy ein rhaglen Grant Trawsnewid Cyfalaf, a thrwy Gyngor Celfyddydau Cymru i sector y celfyddydau, gan gynnwys theatrau. Rydym yn bwriadu ymestyn a datblygu'r cynlluniau hyn i fynd i'r afael â'r ystod o ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu, gan alluogi ystod ac amrywiaeth ehangach o geisiadau a gwell cyfatebiaeth â blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym yn ailedrych ar y cynlluniau hyn er mwyn rhoi lle canolog i ddatgarboneiddio a digideiddio, er mwyn sicrhau bod

buddsoddiadau'n gynaliadwy a'u bod yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig anghydraddoldebau hiliol a gwahaniaethu ar sail anabledd.

Y rhesymeg dros fuddsoddi yn y sectorau diwylliannol, treftadaeth a chreadigol

Sefydlodd [Y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi \(y Genhadaeth\)](#), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, yr egwyddorion adfer sylfaenol a'r cyfeiriad ar gyfer polisi economaidd y weinyddiaeth flaenorol. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu'r Genhadaeth honno ac ymrwymadau diwylliannol sylweddol, gan gydnabod rôl bwysig diwylliant ar gyfer llesiant a darparu cyfleoedd cyflogaeth. Fel y tystiodd yr ymateb i'r pandemig, mae diwylliant a threftadaeth yn ganolog i'r hyn sydd o bwys i bobl, yr hyn y maent yn mwynhau ei wneud, eu llesiant meddyliol a'u hiechyd corfforol.

Mae'r sectorau diwylliannol, creadigol a threftadaeth yn chwarae rhan hanfodol o ran cefnogi economi Cymru. Maent yn creu swyddi yn y diwydiannau creadigol (y cyfryngau, newyddiaduraeth, a chyhoeddi), treftadaeth, adeiladu ac atgyweirio adeiladau traddodiadol, a'r sectorau celfyddydol a diwylliannol. Mae ein hatyniadau diwylliannol yn helpu i gynnal 11,500 o fusnesau yn y diwydiant twristiaeth ac mae diwydiannau creadigol yn cyflogi 56,000 o bobl. Gwelir manteision economaidd cryf o ran yr economi ymwelwyr, adfywio a chreu lleoedd a manteision amgylcheddol cryf drwy ddatgarboneiddio a chefnogaeth ar gyfer bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol.

Mae ein diwydiannau diwylliannol, treftadaeth, chwaraeon a chreadigol yn ganolog i frand Cymru ac yn hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol. Mae'r sectorau hyn wedi wynebu heriau sylweddol eleni a'r llynedd o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws. Bydd effaith yr heriau hyn yn parhau i'r dyfodol wrth inni anelu at gefnogi ein sectorau wrth iddynt adfer. Mae mesurau cymorth Llywodraeth Cymru, fel y Gronfa Adferiad Diwylliannol, y Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden a'r Gronfa Cadernid Economaidd, yn amlwg wedi galluogi ein sectorau i oroesi. Fodd bynnag, mae angen rhagor o gamau nawr, a thros yr ychydig flynyddoedd nesaf, i helpu'r sectorau hanfodol hyn i ailddechrau gweithredu mewn modd cynaliadwy a chyfrannu at adferiad Cymru.

2.0 Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL)

Mae Cyllideb Ddrafft 2022-23 yn darparu £533.311 miliwn ar gyfer y cynllun gwariant tair blynedd ar gyfer refferniw yn ogystal â chyfalaf.

Yn **Atodiad A** ceir dadansoddiad manwl o ddyraniadau cyllideb ddrafft 2022-23 (fel sy'n berthnasol i'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth) yn ôl Cam Gweithredu a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL), gyda'r alldro terfynol ar gyfer 2020-21 a rhagolygon alldro ar gyfer 2021-2022.

Rhoddir rhagor o fanylion am benderfyniadau ynghylch y gyllideb yn y diweddariadau ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

2.1 Cyllideb Adnoddau

Rhoddir crynodeb o drosolwg o'r dyraniadau cyllideb adnoddau rhwng 2022-23 a 2024-25 yn **Nhabl 1** fel a ganlyn:

TABL 1: TROSOLWG O'R GYLLIDEB ADNODDAU (Gan gynnwys AME)

Adnodd (gan gynnwys AME)	Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000	Newid £'000	Cyllideb Ddrafft 2022-23				
			2022-23 £'000	Newid £'000	2023-24 Dangosol £'000	Newid £'000	2024-25 Dangosol £'000
Cyngor Celfyddydau Cymru	32,042	485	32,527	615	33,142	1,116	34,258
Amgueddfa Cymru	27,110	376	27,486	476	27,962	864	28,826
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	12,894	(584)	12,310	210	12,520	381	12,901
Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol	2,817	2,400	5,217	950	6,167	2,400	8,567
Cymru Greadigol (gan gynnwys Cyngor Llyfrau Cymru)	5,438	1,600	7,038	100	7,138	50	7,188
Cadw	13,411	370	13,781	202	13,983	377	14,360
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	594	-	594	-	594	-	594
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	1,764	24	1,788	31	1,819	56	1,875
Chwaraeon Cymru	22,417	329	22,746	416	23,162	756	23,918
Cyfanswm yr Adnoddau	118,487	5,000	123,487	3,000	126,487	6,000	132,487
Pensiynau Cyrff a Noddir	16,000	-	16,000	-	16,000	-	16,000
Cyfanswm yr AME	16,000	-	16,000	-	16,000	-	16,000
CYFANSWM	134,487	5,000	139,487	3,000	142,487	6,000	148,487

*Roedd Cyllideb Derfynol 2021-22 - Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnwys cyllid o £0.75 miliwn tuag at weithredu argymhellion yr Adolygiad Pwrpasol, a oedd yn gyllid anghylchol

** Cafodd Cyllideb Derfynol 2021-22 - Cyngor Llyfrau Cymru ei chyfuno â chyllideb Cymru Creadigol er cymhariaeth

Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Mae cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) o £16 miliwn bob blwyddyn yn cefnogi'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer unrhyw daliadau pensiwn a allai fod yn angenrheidiol mewn perthynas â chynlluniau pensiwn Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chwaraeon Cymru.

2.2 Newidiadau i'r Gyllideb

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymgorffori'r Cytundeb Cydweithio. Cefnogir y flaenoriaeth ar gyfer datblygu'r strategaeth ddiwylliannol gyda £27 miliwn o gyllid ychwanegol dros y 3 blynedd a broffiliwyd: 2022-23 £5 miliwn; 2023-24 £8 miliwn a 2024-25 £14 miliwn. O'r swm hwn, dyrennir £11.75 miliwn i'r cyrff a noddir ac i Cadw gyda chymorth grant / cynnydd mewn cyllid cyfatebol (ac eithrio cyllid heb fod yn arian parod) i gyflawni uchelgeisiau'r strategaeth ddiwylliannol, hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. Mae'r dyraniad o 12% yn uwch erbyn 2024-25 o'i gymharu â'r Gyllideb Derfynol. Caiff y [pecyn cyllido £6.2 miliwn ar gyfer y Llyfrgell](#)

[Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru](#) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021 ei gynnal yn y llinell sylfaen, ac eithrio'r cyllid ychwanegol ar gyfer gweithredu argymhellion yr Adolygiad Pwrpasol yn y Llyfrgell Genedlaethol.¹

Mae'r cyllid ychwanegol o £5 miliwn dros dair blynedd i Cymru Greadigol yn cynyddu buddsoddiad yn y sgiliau creadigol i gefnogi'r strategaeth ddiwylliannol. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi yn y cyfryngau, yn enwedig gwella newyddiaduraeth yng Nghymru a hyrwyddo cynnwys a chynrychiadau digidol Cymraeg. Bydd y Cytundeb yn cefnogi'r potensial ar gyfer Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu i Gymru. Mae cyllideb Cymru Greadigol hefyd yn cynnwys buddsoddiad o £1.750 miliwn dros 3 blynedd ar gyfer sgiliau a fydd yn cefnogi datblygu a darparu cronfa sgiliau Cymru Greadigol. Bydd y gronfa newydd hon yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i greu bwrdd sgiliau creadigol a bydd gan y strwythur newydd rôl o ran dylunio'r gronfa ac argymhell prosiectau i Weinidogion eu cefnogi. Bydd y buddsoddiad yn mynd i'r afael ag angen am gymorth gyda sgiliau yn y sector a bydd gweithgaredd yn cyd-fynd â thystiolaeth, gan gynnwys canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Arolwg Sgrin Cymru. Un ffocws pwysig ar gyfer y gronfa fydd mynd i'r afael â thangynrychiolaeth a chefnogi llwybrau hygyrch i gefnogi sector dwyieithog mwy amrywiol a chynhwysol yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r gwaith sgiliau mae Cymru Greadigol wedi ymrwymo i wella safonau ac arferion yn y gweithle.

Cadwodd y gyllideb Diwylliant Lleol a Chwaraeon y cyllid canolog i gyflawni'r strategaeth ddiwylliannol a chyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu i:

- fuddsoddi yn ein theatrau a'n hamgueddfeydd, gan gynnwys ymrwymo i Theatr Clwyd, sefydlu'r Amgueddfa Bêl-droed a'r Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol²
- sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a'n rhwydwaith amgueddfeydd; a
- sicrhau bod hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn ein sectorau diwylliannol a threftadaeth, gan gynnwys yn ein Hamgueddfeydd Cenedlaethol.

Mae darpariaeth hefyd ar gyfer ein cyfrifoldebau statudol i'r sectorau amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol a'n rôl fel asiantaeth ddatblygu ar gyfer y sectorau hyn, a fydd yn cynnwys rhaglen uchelgeisiol ar gyfer datblygu'r gweithlu, parhau ac ymestyn y rhaglen Cyfuno a Chasgliad y Werin Cymru. Mae'r gyllideb hon hefyd yn darparu ar gyfer Cynllun Nofio Am Ddim y Lluoedd Arfog a'r Gemau Trefol.

Mae llyfrgelloedd ac archifau ac amgueddfeydd awdurdodau lleol yn feysydd gwasanaeth a adlewyrchir yng nghyfrifiad y dosbarthiad o'r setliad llywodraeth leol. Nid yw hyn yn arwydd o'r cyllid sydd ar gael gan nad yw'r setliad wedi'i neilltuo, ond mae'n adlewyrchu'r angen cymharol i wario ar draws awdurdodau.

Mae cynllun Cadw hefyd yn darparu ar gyfer ymrwymadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu i:

- Gefnogi'r cais i nodi tirwedd lechi'r Gogledd-orllewin fel Safle Treftadaeth y Byd. Bydd y

¹ Dylid nodi bod y gostyngiad o £0.584 miliwn yng nghyllid y Llyfrgell Genedlaethol o'r Gyllideb Derfynol i gyllideb 2022-23 yn adlewyrchu addasiad o £0.750 miliwn i'r llinell sylfaen ar gyfer yr Adolygiad sydd wedi'i wrthbwysu gan y cynnydd i'r cymorth grant bob blwyddyn.

² Rydym hefyd yn disgwyl cais am referniw mewn perthynas â'r Amgueddfa Bêl-droed, ond disgwylir hyn o 2025/26 ymlaen.

cymorth hwn nawr yn canolbwyntio ar wireddu'r cyfleoedd a gyflwynir yn dilyn cyflwyniad ffurfiol ym mis Gorffennaf.

- Gweithio gyda chydweithwyr yn Is-adran y Gymraeg i amddiffyn enwau lleoedd Cymraeg.
- Mynd i'r afael yn llawn ag argymhellion yr Archwiliad Henebion ac Enwau Strydoedd.

Rhagolwg 2021-22

Mae'r rhagolwg o'r alldro refeniw ar gyfer 2021-22 yn £148.457 o'i gymharu â'r Gyllideb Atodol Gyntaf o £148.886 miliwn yn **Atodiad A.** Cyhoeddwyd manylion dyraniadau Covid ychwanegol i gefnogi'r sectorau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth ar 16 Gorffennaf: [Datganiad Ysgrifenedig ar y Gronfa Adferiad Diwylliannol y Datganiad Ysgrifenedig - Cam 2.](#)

Alldro Terfynol 2020-21

Roedd y ffigurau alldro terfynol ar gyfer 2020-21 o £207.371 miliwn yn adlewyrchu'r dyraniadau sylweddol o £63 miliwn i gefnogi'r celfyddydau a diwylliant yn ystod y pandemig: [Datganiad Ysgrifenedig: Y Gronfa Adferiad Diwylliannol.](#) Cafwyd dyraniadau ar gyfer y [Gronfa Diogelu Chwaraeon Gwylwyr £17.7 miliwn](#) a'r [Gronfa Chwaraeon a Hamdden - £14 miliwn](#) i gefnogi'r sector gyda heriau parhaus pandemig y coronafeirws a helpu i ddarparu cynaliadwyedd yn y tymor hwy. O'r Gronfa Chwaraeon a Hamdden, dyrannwyd £12.5 miliwn yn uniongyrchol i Chwaraeon Cymru i ddarparu cyllid hanfodol i glybiau a sefydliadau chwaraeon a rheolir £1.5 miliwn o fewn y BEL Diwylliant Lleol a Chwaraeon ar gyfer digwyddiadau chwaraeon.

Darparwyd incwm ychwanegol o £7.390 miliwn hefyd i sefydliadau yr effeithiwyd arnynt oherwydd iddynt orfod cau a chael llai o incwm gan ymwelwyr: Llyfrgell Genedlaethol; Amgueddfa Genedlaethol; Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Cadw.

2.3 Cyllideb Gyfalaf

Cefnogir y dyraniadau cyfalaf gydag adolygiad cwbl gynhwysfawr i gyflawni strategaeth newydd ar gyfer Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Yn ogystal, cefnogir y cynlluniau cyfalaf gyda chyllid ychwanegol o **£60 miliwn** i amddiffyn y celfyddydau a diwylliant a chyflawni'r strategaeth ddiwylliannol: un o flaenoriaethau'r Cytundeb Cydweithio. Caiff trosolwg o'r asesiad o'r gyllideb gyfalaf ei grynhoi yn **Nhabl 2** fel a ganlyn:

TABL 2: TROSOLWG O DDYRANIADAU'R GYLLIDEB GYFALAF

Cyfalaf	Cyllideb Derfynol	Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2021-22			
	2021-22 £'000	2022-23 £'000	2023-24 dangosol £'000	2024-25 dangosol £'000	Cyfanswm £'000
Cyngor Celfyddydau Cymru	1,575	400	400	400	1,200

Amgueddfa Cymru	6,697	4,500	5,000	5,000	14,500
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	3,695	2,500	2,000	2,000	6,500
Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol	1,430	11,700	21,500	24,700	57,900
Cymru Greadigol (gan gynnwys Cyngor Llyfrau Cymru)	7,019	5,000	5,000	5,000	15,000
Cadw	8,731	10,000	10,000	10,000	30,000
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	375	1,200	200	200	1,600
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	15	50	50	50	150
Chwaraeon Cymru	8,629	8,000	8,000	8,000	24,000
Cyfanswm	38,166	43,350	52,150	55,350	150,850

Yn gyffredinol, bydd y buddsoddiad cyfalaf yn y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon yn cyflawni'r ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu:

- sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a'n rhwydwaith amgueddfeydd.
- sicrhau bod hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn ein sectorau diwylliannol a threftadaeth, gan gynnwys yn ein Hamgueddfeydd Cenedlaethol.
- buddsoddi yn ein theatrau a'n hamgueddfeydd, gan gynnwys ymrwymo i Theatr Clwyd, sefydlu'r Amgueddfa Bêl-droed a'r Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol;
- datblygu cynlluniau ar gyfer Amgueddfa'r Gogledd.
- hyrwyddo mynediad cyfartal at chwaraeon a chefnogi athletwyr ifanc a thalentog a chlybiau llawr gwlad.
- buddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon newydd, megis caeau artiffisial.
- buddsoddi yn ein cyfleusterau chwaraeon o safon fyd-eang.

Mae buddsoddi yn ein hasiantaethau mewnol, sefydliadau cenedlaethol a sectorau lleol yn hanfodol ac yn cydnabod pwysigrwydd y celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a threftadaeth ar gyfer ein nodau llesiant: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru iachach a Chymru o gymunedau cydlynus. Mae buddsoddi yng nghynaliadwyedd hirdymor ein sefydliadau cenedlaethol yn dangos ein hymrwymiad i warchod ein diwylliant a'n treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a'n hymrwymadau i'r sefydliadau hyn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol ledled Cymru yn well. Mae datgarboneiddio yn flaenoriaeth i'r penderfyniadau cyllidebol er mwyn cyflawni [Sero Net Cymru](#) a galluogi'r sefydliadau i fynd i'r afael â phryderon amgylcheddol, yn enwedig allyriadau CO2 ac effeithlonrwydd ynni. Yn ystod y pandemig mae'r sefydliadau wedi addasu eu cynnig i'r cyhoedd drwy sicrhau bod mwy o'u casgliadau ar gael yn ddigidol, ac wedi dechrau cynnig rhaglenni addysgol ac adloniant ar-lein er mwyn i unigolion a theuluoedd fwynhau diwylliant a threftadaeth gartref. Bydd y cyllidebau cyfalaf yn galluogi rhagor o fuddsoddiad mewn technoleg ar gyfer adfer, mynediad ehangach a chadwraeth casgliadau.

Asiantaethau mewnol:

Mae'r brand Cymru Greadigol yn cefnogi'r strategaeth ryngwladol wrth godi proffil Cymru i'r byd, nid yn unig fel canolfan rhagoriaeth greadigol, ond fel lle gwych i ymweld ag ef a byw ynddo. Mae buddsoddiad creadigol a diwylliannol yn hanfodol ar gyfer adfywio ledled Cymru a bydd y cyllid o £15 miliwn dros dair blynedd yn cefnogi cynrychiadau a mentrau Cymraeg a Saesneg.

Mae rhaglenni datblygu a chadwraeth sylweddol ar y gweill ar gyfer ein safleoedd treftadaeth gyda chyllideb o £30 miliwn i Cadw dros dair blynedd, gan gynnwys rhaglenni yng Nghastell Caernarfon a Chastell Caerffili.

Sefydliadau diwylliannol cenedlaethol:

Mae gan Amgueddfa Cymru her benodol o ran gwarchod nifer o safleoedd hanesyddol a'u cynnal a'u cadw i lefel lle maent yn fannau diogel i staff a'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw. Dyrennir cyllid o £14.5 miliwn dros dair blynedd i Amgueddfa Cymru er mwyn galluogi'r sefydliad i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw cyfalaf ar draws yr ystâd. Mae mynd i'r afael â materion hygyrchedd yn flaenoriaeth barhaus ar bob safle. Caiff cyllid dangosol i sefydlu Amgueddfa'r Gogledd ei gynnwys yn y gyllideb Diwylliant Lleol a chwaraeon, ac mae'n amodol ar achos busnes.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn adeilad diwylliannol eiconig sydd wedi'i leoli yn Aberystwyth sy'n cyflwyno heriau tebyg o ran costau cyfalaf. Mae ei chynnal fel ystorfa ddiogel ar gyfer casgliadau hanesyddol gwerthfawr yn her. Mae materion storio a sicrhau bod y Llyfrgell yn bodloni ei rhwymedigaethau iechyd a diogelwch statudol i staff a'r cyhoedd sy'n ymweld â hi yn flaenoriaethau parhaus. Bydd cyllid o £6.5 miliwn dros dair blynedd hefyd yn cefnogi'r blaenoriaethau datgarboneiddio.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn bartner allweddol o ran darparu buddsoddiad yn y celfyddydau, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae Cyngor y Celfyddydau yn bartner allweddol o ran cyflawni Theatr Clwyd a'r Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol ar y cyd ag Amgueddfa Cymru wrth gyflwyno'r Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol ac Amgueddfa Bêl-droed Cymru. Yn amodol ar ystyried yr achosion busnes, mae'r datblygiadau hyn yn gwella'r cynnig diwylliannol ledled Cymru, yn enwedig yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae cyllid ar gyfer y prosiectau mawr hyn wedi'i gynnwys o fewn y gyllideb diwylliant lleol ac mae'n amodol ar ystyriaeth o achosion busnes.

Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn dangos ymrwymiad i hyrwyddo bioamrywiaeth, datblygu cynaliadwy, ymchwil a chadwraeth, a dysgu gydol oes. Yn 2022-23 darperir £1 miliwn ychwanegol i fynd i'r afael â rhwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf Cronfeydd Dŵr (1975).

Cymorth i sectorau diwylliant lleol:

Bydd y cymorth o £57.9 miliwn i'r gyllideb diwylliant a chwaraeon dros dair blynedd yn cefnogi'r strategaeth ddiwylliannol ac yn darparu ar gyfer y buddsoddiadau cyfalaf strategol a'r ddarpariaeth ar gyfer y buddsoddiadau mewn datblygu'r sectorau lleol, yn enwedig amgueddfeydd a chasgliadau. Rydym yn rhagweld y byddwn yn ehangu ein cynllun Grantiau Cyfalaf Trawsnewid i gynnwys dyfarndaliadau i gefnogi datgarboneiddio, mentrau digidol, buddsoddiadau ar raddfa lai i wella mynediad at ystod ehangach o sefydliadau, a chanolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig anghydraddoldebau hiliol.

Chwaraeon:

Bydd y gyllideb gyfalaf flynyddol o £8 miliwn yn darparu buddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau chwaraeon cymunedol ac elitaidd i ddarparu amgylcheddau modern a chynaliadwy ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon, i feithrin a datblygu athletwyr talentog. Bydd hefyd yn sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i gystadlu'n rhyngwladol ac i helpu i gynnal digwyddiadau rhyngwladol, gan ddarparu cyfle unigryw i hyrwyddo brand Cymru ar y llwyfan rhyngwladol yn y dyfodol.

Rhagolwg 2021-22

Ni ragwelir unrhyw amrywiannau sylweddol ar gyfer y gyllideb gyfalaf, ac ar hyn o bryd mae'r rhagolwg o alldro cyfalaf cyffredinol yn £39.021 miliwn o'i gymharu â chyllideb Atodol Gyntaf £38.866 miliwn yn **Atodiad A**.

Alldro Terfynol 2020-21

Mae'r ffigurau alldro terfynol ar gyfer 2020-21 o £29.667 miliwn yn unol â'r Drydedd gyllideb Atodol, sef £30.166 miliwn.

3.0 Ymateb i Wybodaeth Benodol y Gofynnwyd Amdani gan y Pwyllgor

3.1 Gwybodaeth am gyflawni'r portffolio Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth a'r canlyniadau cysylltiedig a sut y caiff hyn ei fonitro a'i werthuso i ddangos gwerth am arian.

Mae'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob corff a noddir wedi'u nodi yn eu llythyrau cylch gwaith, y maent yn eu defnyddio fel sail i'w cynlluniau gweithredol a'u dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r Dirprwy Weinidog yn cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn â phob corff, ac mae swyddogion yn monitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn yn ffurfiol mewn cyfarfodydd monitro chwarterol ac yn fwy rheolaidd drwy berthnasoedd gwaith agos â'r uwch dimau gweithredol yn y cyrff a noddir. Ar wahoddiad y cyrff, mae swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd, gan roi trosolwg da o broblemau posibl i Lywodraeth Cymru. Mae hawliadau misol am gymorth grant yn destun proses graffu hefyd i sicrhau y gwneir cynnydd yn erbyn llinellau gwariant penodol.

Mae gan Cadw ei fwrdd asiantaeth mewnol ei hun gydag aelodau anweithredol. Mae'n cyfarfod bob chwarter a rhan o'i rôl yw craffu ar berfformiad Cadw yn erbyn ei gynllun busnes ac ar ei adroddiadau ariannol.

Mae gan bob prosiect mawr drefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'r prosiect penodol. Mae buddsoddiadau cyfalaf mawr yn cael eu cefnogi gan achosion busnes y mae tîm a swyddogion Trysorlys Llywodraeth Cymru yn craffu arnynt i sicrhau eu bod yn gadarn. Dyfernir grantiau a chontractau cyfalaf a refeniw llai yn seiliedig ar broses ymgeisio agored neu gomisiwn uniongyrchol, a chânt eu monitro gan swyddogion drwy gydol cylch bywyd y prosiect, gyda chyflawniadau y cytunwyd arnynt a phwyntiau gwirio.

Caiff prosiectau a gweithgaredd mawr eu monitro gan ddefnyddio'r Offeryn Adroddiad am Wybodaeth Busnes. Mae Cynllun Tystiolaeth yn cyflwyno'r prosiectau ymchwil, gwerthuso a chasglu data y mae'r Is-adran Diwylliant yn ymgymryd â nhw neu wedi ymrwymo iddynt. Caiff ei ddiweddarau'n flynyddol, yn seiliedig ar drafodaethau gyda staff a rhanddeiliaid ehangach, i sicrhau bod gweithgaredd yn cefnogi blaenoriaethau adrannol allweddol ac ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu.

3.2 Manylion am bolisiau neu raglenni penodol yn y Prif Grwpiau Gwariant (sy'n berthnasol i'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth) y bwriedir iddynt fod yn ataliol a sut y caiff gwerth am arian a manteision cost rhaglenni o'r fath eu gwerthuso.

Bydd y Strategaeth Ddiwylliant yn nodi pa bolisiau a rhaglenni y bwriedir iddynt fod yn ataliol a sicrhau bod manteision cost y rhaglenni hyn yn cael eu hystyried. Ystyrir pob cynnig er mwyn canfod a ydynt yn cynrychioli gwerth am arian.

Mae celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a threftadaeth yn chwarae rhan bwysig o ran mynd i'r afael ag anfantais ac atal tlodi. Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol (fel gwirfoddoli mewn amgueddfa neu chwarae cerddoriaeth) gynyddu sgiliau, hunan-barch, dysgu a dyhead, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir anfantais economaidd.

Iechyd a llesiant

Mae'r pandemig wedi tanlinellu'n ddramatig bwysigrwydd diwylliant o ran hyrwyddo llesiant cadarnhaol ac iechyd corfforol, gyda diwylliant a threftadaeth yn achubiaeth i lawer o unigolion, cartrefi a chymunedau yn ystod y cyfnod anodd ac ansicr hwn. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn y maes iechyd i gyflawni'r fframwaith ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol a chyda chydweithwyr yn y byd addysg ar gynlluniau peilot i drawsnewid y diwrnod ysgol a chymorth i blant wrth ymateb i'r pandemig, er enghraifft drwy'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf a gweithgareddau Gaeaf Llawn Lles. Darperir cyllid ar gyfer y gweithgareddau hyn gan gyllidebau'r gweinidogion perthnasol. Ymhlith yr enghreifftiau o brosiectau a fydd yn cael eu hariannu'n uniongyrchol mae comisiynu fersiwn Gymraeg o'r Ap House of Memories, sy'n defnyddio casgliadau amgueddfeydd i gefnogi pobl â dementia, ac ymestyn y llyfrau a gynigir ar bresgripsiwn. Mae HARP - Iechyd, y Celfyddydau, Ymchwil a Phobl yn un enghraifft o ymyriadau celfyddydol i atal salwch, sy'n brosiect cydweithredol gyda'r GIG i ddatblygu dulliau newydd o ymdrin ag iechyd, llesiant a chreadigrwydd.

Gall chwaraeon fod yn offeryn iechyd ataliol mwyaf effeithiol y wlad ond mae angen mwy o flaenoriaethu traws-sector i greu'r newidiadau cynaliadwy hirdymor mewn cyfranogiad. Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol a'r Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach yn ddwy enghraifft o lwyddiant yn y maes hwn. Yn 2022-23, byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth drwy'r Gronfa Iach ac Egnïol, gan gefnogi sefydliadau sy'n mynd ati i hyrwyddo a galluogi gweithgaredd iach ar gyfer grwpiau poblogaeth sydd ag ychydig neu ddim gweithgaredd corfforol yn eu bywydau. Bydd Chwaraeon Cymru hefyd yn parhau i fuddsoddi cyllid ac adnoddau yng nghynllun cyflawni 'Pwysau Iach: Cymru Iach' Llywodraeth Cymru gan gynnwys cyflawni'r cynllun Hamdden Egnïol 60+.

Y rhaglen Cyfuno

Mae'r gyllideb yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cymorth parhaus i'r Rhaglen Cyfuno a'i gwaith yn ymgysylltu ag unigolion a chymunedau mewn ardaloedd o amddifadedd. Er gwaethaf yr anawsterau a gyflwynwyd yn ystod y pandemig, mae'r rhaglen Cyfuno wedi bod yn ddyfeisgar o ran dod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu ac annog gweithgareddau diwylliannol. Erbyn diwedd 2024-25 rydym yn anelu at gyflwyno cydlynwyr Cyfuno i'r holl awdurdodau lleol sy'n dymuno cymryd rhan yn y rhaglen.

Nod y rhaglen Cyfuno yw mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thlodi a llesiant drwy weithgaredd diwylliannol, ac mae wedi parhau i ddatblygu ymgysylltiad â chymunedau gan gynnig atebion arloesol a phwrpasol i ymgysylltu ag unigolion a chymunedau, drwy ddefnyddio adnoddau digidol a darparu pecynnau o wybodaeth ddiwylliannol. Mae'r rhaglen yn parhau i fod yn achubiaeth ddiwylliannol i unigolion a chymunedau er mwyn gwella effeithiau tlodi, iechyd a llesiant.

Casgliad y Werin Cymru

Byddwn yn parhau i gefnogi rhaglen treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru. Cyflwynir y rhaglen hon drwy bartneriaeth ffederal o dri chorff noddedig: Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae'r rhaglen yn annog, yn grymuso ac yn cefnogi unigolion a grwpiau cymunedol i greu a lanlwytho eu cynnwys digidol eu hunain i wefan Casgliad y Werin, ochr yn ochr â deunydd a gyfrannwyd gan y partneriaid arweiniol a sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol eraill. O ran y dyfodol, byddwn yn canolbwyntio ar ymgysylltu'n well â'n cymunedau amrywiol ledled Cymru, gan gynnwys ein cymunedau ethnig amrywiol a'n hymrwymiaid yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Cyfleoedd Cyflogaeth

Yn sail i'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Cynllun Cyflogadwyedd mae'r dystiolaeth mai gwaith â chyflog da yw'r llwybr gorau allan o dlodi a'r amddiffyniad mwyaf yn erbyn tlodi i'r rhai sydd mewn perygl. Drwy gefnogi swyddi a thwf cynaliadwy, yn enwedig gyda buddsoddiadau a chyfleoedd yn sgil Cymru Greadigol i weithio yn sectorau ehangach y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth a chymryd camau i geisio lliniaru rhai o'r heriau sy'n wynebu pobl wrth gael gafael ar swyddi, ein nod yw lleihau'r tebygolrwydd y bydd teuluoedd sy'n profi tlodi ac yn osgoi'r costau hirdymor i gymdeithas yn sgil tlodi. Rydym yn parhau i greu cyfleoedd i unigolion a theuluoedd drwy fentrau a buddsoddiad wedi'i dargedu ledled Cymru.

3.3 Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn eich portffolio i ddarparu ar gyfer deddfwriaeth a allai gael effaith yn y flwyddyn ariannol 2022-23 fel y bo'n berthnasol i'r portffolio Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfraith amgylchedd hanesyddol Cymru fel pwnc addas ar gyfer un o'i phrosiectau cyntaf mewn rhaglen uchelgeisiol i wella mynediad at ddeddfwriaeth Cymru. Bydd y Bil yn cydgrynhoi'r prif ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Er y gall strwythur a mynegiant y gyfraith fod yn wahanol ar ôl cydgrynhoi, bydd ei heffaith gyfreithiol yn aros yr un fath. Ni fydd unrhyw newidiadau polisi yn y Bil. O ganlyniad, mae goblygiadau ariannol y Bil yn rhai trosiannol a lleiaf posibl ac yn cynnwys diweddarau canllawiau, ffurflenni, gwefannau a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ddwyieithog newydd.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n gofyn am ddarpariaeth yn y gyllideb yn 2021-22.

3.4 Goblygiadau effaith barhaus pandemig COVID-19 ac ymadawiad y DU â'r UE i'r portffolio Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli'r effaith barhaus.

Efallai y bydd llai o ymwelwyr, yn enwedig ymwelwyr tramor, yn cael effaith andwyol ar Cadw, yr Amgueddfa Genedlaethol, y Llyfrgell Genedlaethol, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Phortffolio Celfyddydau Cymru. Bydd y sefyllfa hon yn parhau i gael ei monitro'n fanwl. Er enghraifft, mae'r cyfyngiadau oherwydd y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar nifer yr ymwelwyr a lefelau'r incwm masnachol yn safleoedd Cadw dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, bu adferiad cryf yn y ffigurau hyn o haf 2021 ymlaen pan gafwyd tymor twristiaeth da yng Nghymru, a disgwyliwn i hyn barhau ar yr amod nad oes rhagor o gyfyngiadau sylweddol. Mae hyn wedi'i ddiogelu drwy ddyraniadau ychwanegol ar gyfer Covid.

Mae sectorau'r celfyddydau a diwylliant lleol wedi elwa o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, a ffynonellau eraill o arian i liniaru effeithiau Covid gan gynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd a'r cynllun ffyrlo. Mae'n rhy gynnar i asesu effaith lawn y pandemig ar y sectorau diwylliannol a chelfyddydol. Roedd y sector ymhlith yr olaf i ailagor ac mae effaith y pandemig yn debygol o gael ei theimlo am beth amser a hyd nes y bydd hyder y cyhoedd yn dychwelyd. Rydym wedi gweld gostyngiadau yn nifer yr ymwelwyr a gwirfoddolwyr. Mae sawl rhan o'r sector, fel theatrau, yn rhagweld y bydd hi'n 12-18 mis cyn i gynulleidfaoedd dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig.

Dros y blynyddoedd, mae'r portffolio wedi elwa'n fawr o gyllid yr UE ar gyfer prosiectau penodol. Ar gyfer Cadw dim ond cyllid Ewropeaidd cyfyngedig sydd wedi'i sicrhau yn ystod y blynyddoedd diweddaraf; ond yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth y DU yn aros am eglurder ynghylch i ba raddau y bydd llinellau sylfaen yn cael eu hymestyn i ddisodli cyllid yr UE, a sut y bydd trefniadau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gweithio.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU na fyddai rhaglen a fyddai'n cymryd lle Ewrop Greadigol yn elwa o gyllid uniongyrchol fel rhan o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant. Ni ddarparwyd cymorth uniongyrchol ar gyfer yr elfen Diwylliant ond mae'r elfen greadigol ffilm a sgrin wedi cael cymorth. Erys cyfleoedd i fanteisio ar gronfa gyfyngedig iawn drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Disodlwyd y rhaglen Ewrop Greadigol gan y Gronfa Sgrin Fyd-eang a gynhaliwyd fel peilot gwerth £7 miliwn yn 2021-22 o dan y Ddeddf Marchnad Fewnol. Er bod nifer bach o fusnesau Cymru wedi elwa o'r rhaglen hon, mae swyddogion wedi darparu adborth yn gyson i'r Adran Dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch yr angen i wledydd datganoledig chwarae mwy o ran yn y broses o sefydlu a chyflawni'r rhaglen. Yn yr Adolygiad diweddar o wariant, dyrannwyd £42 miliwn arall i'r diwydiannau creadigol dros y 3 blynedd nesaf sy'n cynnwys parhad y Gronfa Sgrin Fyd-eang. Mae swyddogion yn parhau i drafod y broses o sefydlu a chyflawni hyn er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf i Gymru. Hyd yma, ni chyflwynwyd dim i ddisodli'r is-raglen ddiwylliannol Ewrop Greadigol yn uniongyrchol ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a gwledydd datganoledig eraill i godi materion a nodi opsiynau ar gyfer darparu cymorth i'r sector.

Ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth y llynedd, mae'r sector chwaraeon a hamdden wedi dioddef yn ddifrifol. Daeth chwaraeon ledled Cymru i ben yn ddisymwth gyda'r holl leoliadau chwaraeon, gweithgareddau, cystadlaethau a digwyddiadau wedi cau, wedi eu canslo neu wedi eu gohirio gan gael effaith uniongyrchol ac arwain at gollu incwm i'r mwyafrif. Mae'r pandemig wedi cael effaith andwyol ar bob unigolyn, clwb a sefydliad.

Mae rhai o effeithiau Covid-19 ar y sector chwaraeon wedi cael eu lliniaru gan faint a chyflymder y pecynnau iawndal a gyhoeddwyd gan Lywodraethau y DU a Llywodraeth Cymru. Drwy gydol y pandemig hyd yma mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar dros £40 miliwn mewn pecynnau cymorth, gan gynnwys:

- Cyllid penodol ar gyfer chwaraeon gwylwyr fel cyfraniad tuag at y colledion refeniw a ddeilliodd o'r cyfyngiadau sy'n atal gwylwyr rhag mynychu digwyddiadau;
- Cronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden i ddarparu cymorth parhaus hanfodol i glybiau a sefydliadau, canolfannau hamdden awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau hamdden, darparwyr annibynnol (gan gynnwys gweithwyr llawrydd) a digwyddiadau chwaraeon a welodd golled sylweddol o ran refeniw.

3.5 Gwybodaeth am unrhyw gyllid wrth gefn sy'n ymwneud â COVID-19 i'r sector diwylliannol pe bai sefyllfa iechyd y cyhoedd yn dirywio.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, gan gynnwys gwaith ar opsiynau'n ymwneud â'r senario hon.

I'r cyrff a noddir yn y sector diwylliannol, mae bod ar agor a gallu cynnal eu gweithrediadau masnachol heb gael eu cyfyngu yn allweddol er mwyn cyflawni eu targedau masnachol a'u targedau codi arian. Mae cyfyngiadau sy'n ymwneud â gweithredu mewn amgylchedd Covid-ddiogel wedi effeithio'n negyddol ar eu gallu i gynhyrchu incwm masnachol. Yn 2021-22, roedd Cynllun Cadw Swyddi'r DU yn ddefnyddiol o ran lliniaru effaith Covid, yn enwedig gan fod canran fawr o'r cymorth grant a gynigir gan Lywodraeth Cymru i gyrff a noddir ganddi yn ymwneud â chostau staffio. Nid oedd modd i gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru gael mynediad at gyllid brys fel cynlluniau'r Gronfa Adferiad Diwylliannol.

Rydym yn parhau i ystyried, drwy drafod yn fanwl â'r cyrff a noddir gennym a rhanddeiliaid yr effeithir arnynt, a fydd angen cyllid ychwanegol a faint o gyllid ychwanegol y gallai fod ei angen pe bai'r heriau'n parhau neu pe bai'r sefyllfa'n gwaethygu.

Meysydd penodol

Strategaeth yr Amgylchedd Hanesyddol a Gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol

3.6 Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol.

Bwriadwyd i'r broses o weithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 bara am bum mlynedd rhwng 2016 a 2021. Daeth gwariant a gyllidebwyd ar gyfer gweithredu i ben yn 2020-21. Er y bydd rhai costau blynyddol yn gysylltiedig â'r Ddeddf o hyd, rydym wedi symud o'r cam gweithredu arfaethedig a bydd unrhyw gostau'n cael eu talu fel gwariant arferol o gyllidebau arferol Cadw..

Cadw

3.7 Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â Cadw gan gynnwys targedau creu refeniw, a ffigurau creu incwm blynyddol diweddar.

Cynyddodd ffigurau incwm yn sylweddol iawn o £4.8 miliwn yn 2013-14. Roedd hyn o ganlyniad i nifer o fentrau i ddenu mwy o ymwelwyr i safleoedd, gan gynnwys buddsoddi yn y cyfleusterau, ynghyd â chynnydd mewn prisiau. Y ffigur incwm masnachol ar gyfer 2019-20 oedd £8 miliwn – record i Cadw. O ganlyniad i'r cyfyngiadau yn sgil y pandemig, gostyngodd y ffigur i ddim ond £1.2 miliwn yn 2020-21. Yn 2021-22, caewyd holl safleoedd Cadw i ymwelwyr ar ddechrau'r flwyddyn ariannol a dim ond yn rhannol y dechreuwyd eu hailagor wrth i'r cyfyngiadau ddechrau cael eu codi. O ganlyniad, roedd nifer yr ymwelwyr ac incwm masnachol yn isel iawn yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn. Roedd y rhan fwyaf o safleoedd â staff yn gallu ailagor yn llawn o 7 Awst ymlaen pan symudwyd i Lefel Rhybudd 0. Ers hynny, mae ffigurau incwm masnachol wedi adfer yn well na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, efallai o ganlyniad i'r cyfyngiadau parhaus ar deithio rhyngwladol ac felly'r niferoedd mawr o bobl a ddewisodd gael gwyliau yng Nghymru. Ar hyn o bryd, y ffigur incwm diwygiedig a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yw £6.2 miliwn ond mae ansicrwydd yn parhau wrth gwrs, yn enwedig o ystyried y posibilrwydd o ailgyflwyno rhai cyfyngiadau.

Ar hyn o bryd mae Cadw yn gwneud gwaith mawr yng nghestyll Caernarfon a Chaerffili sy'n cynnwys buddsoddi mewn caffis newydd, gyda'r nod o gynyddu nifer yr ymwelwyr ac felly ffigurau incwm masnachol yn y dyfodol. Bydd y gyllideb gyfalaf o £10 miliwn y flwyddyn ar gyfer y dyfodol yn galluogi i'r gwaith hwn gael ei gwblhau; ynghyd â buddsoddiad sylweddol yn rhai o safleoedd eraill Cadw.

Llwyddodd Cadw i gadw mwyafrif ei aelodau yn ystod 2020-21, gyda chyfradd gadw o 91%, ynghyd â denu rhai aelodau newydd, er gwaethaf y pandemig a'r ffaith bod safleoedd wedi bod ar gau y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Cyflawnwyd hyn drwy gynnig estyniadau i aelodaeth neu brisiau gostyngol. Yn sgil hyn cafodd ffrydiau incwm eu diogelu ar gyfer y dyfodol, ac mae nifer yr aelodau wedi cynyddu i tua 47,000, o gymharu â 44,500 ar ddiwedd mis Mawrth 2021.

Mae'r diffyg yn 2020-21 a'r diffyg a ragwelir ar gyfer 2021-22 yn cael eu cwmpasu gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Yn fwy cyffredinol, mae Cadw yn gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru'n cael ei ddiogelu'n dda. Mae'n gofalu am 130 o henebion ledled Cymru ac yn rhoi mynediad i'r cyhoedd iddynt. O blith y rhain, mae 29 yn safleoedd â staff ac mae'r gweddill yn safleoedd mynediad agored am ddim. Mae gwariant cyfalaf ar gadwraeth henebion yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig hefyd.

3.8 Dyraniadau tuag at gyllid i berchnogion asedau hanesyddol

Mae mwy na 30,000 o adeiladau rhestredig a 4,200 o henebion cofrestredig yng Nghymru, ac mae'r mwyafrif mewn perchnogaeth breifat. Mae'r rhan fwyaf o'r perchnogion hynny'n gofalu'n gydwybodol am eu heiddo, sy'n cynrychioli etifeddiaeth werthfawr ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae Cadw wedi cyhoeddi ystod eang o ganllawiau a deunydd cyfeirio at gyllid grant sydd ar gael y gellir eu lawrlwytho'n ddi-dâl o wefan Cadw. Mae swyddogion Cadw bob amser yn fwy na pharod i roi cyngor ar ymholiadau cyffredinol yn ymwneud ag asedau hanesyddol, ond cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio lleol yw ymholiadau penodol yn ymwneud â rheoli adeiladau rhestredig. Fodd bynnag, os bydd gwaith arfaethedig neu faterion eraill yn codi cwestiynau anodd, mae fy swyddogion yn hapus i gynnig cyngor drwy gyfrwng trafodaethau cyn gwneud cais sy'n cynnwys pob parti.

Nid yw rhestru adeilad neu gofrestru heneb yn golygu hawl i gymorth grant. Fel gydag unrhyw adeilad, mater i'r perchennog yw'r atebolrwydd o ran cynnal a chadw. Fodd bynnag, mae gan Cadw gynlluniau grant sy'n seiliedig ar amcanion craidd ein strategaeth genedlaethol - *Ffyniant i Bawb*. Gwneir dyfarndaliadau gwerth am arian ar sail amcangyfrifon wedi'u costio a gyflwynir gan yr ymgeisydd, wedi'u hasesu gan Arolygwyr Cadw.

Mae gan Cadw y cynlluniau grant cyfalaf a ganlyn:

Grantiau Adeiladau Rhestredig - ar gyfer atgyweirio ac adfer asedau cymunedol hanesyddol rhestredig megis neuaddau pentref a chymunedol, sefydliadau, llyfrgelloedd ac addoldai hanesyddol sydd ar agor at ddefnydd y gymuned ehangach.

Grantiau Henebion - Gall henebion amrywio o siambrau claddu Neolithig i adeiladau'r chwyldro diwydiannol. Mae llawer mewn sefyllfa fregus ac rydym yn cydnabod y gall gwaith atgyweirio fod yn gostus neu efallai na fydd hynny bob amser o fudd ariannol i berchennog yr heneb.

3.9 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan gynnwys targedau creu referniw.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru yn sefydliadau diwylliannol pwysig ac uchel eu proffil. Maent yn rhagweithiol o ran cyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth ac ymgysylltu â phobl Cymru mewn gweithgareddau diwylliannol yn ogystal â bod yn hwyluswyr pwysig ar gyfer cyflwyno diwylliant Cymreig yn rhyngwladol.

Ar ôl cyfnod hir o gyllidebau segur, roeddem yn gallu cynyddu'r cymorth grant referniw sylfaenol ar gyfer y dda sefydliad cenedlaethol hyn yn 2021-22 a hefyd darparu cynnydd bach mewn cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth ddiwylliannol o 2022-23.³

Llyfrgell Genedlaethol – Cyfanswm y Gyllideb £44.231 miliwn - £33.981 miliwn o referniw, £3.750 miliwn nad yw'n arian parod a £6.5 miliwn o gyfalaf dros dair blynedd

Bydd y gyllideb gyfalaf yn galluogi'r Llyfrgell i fwrw ymlaen â'r gwaith pwysig a ddechreuwyd i fynd i'r afael ag ôl troed carbon y sefydliad cenedlaethol. Ceir darpariaeth i fodloni rhwymedigaethau statudol Deddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003.

Targed cynhyrchu incwm blynyddol masnachol y Llyfrgell Genedlaethol yw £0.7 miliwn. Mae'r Llyfrgell yn gwneud yn dda o ran denu rhoddion a chymynroddion elusennol ond mae'r targed cynhyrchu incwm masnachol yn heriol, gyda llai o opsiynau ar y safle ar gyfer cynhyrchu referniw o gymharu â'r Amgueddfa sydd â siopau a'i chaffis ar saith safle. Un o argymhellion yr Adolygiad Pwrpasol oedd bod y Llyfrgell yn comisiynu adroddiad ar ei photensial masnachol. Mae hyn bellach ar y gweill ond nid yw'r canfyddiadau ar gael eto. Mae'r Llyfrgell wedi comisiynu adroddiadau ar y cyfraniad y mae'n ei wneud at yr economi leol ac i'w photensial fel cyrchfan ddiwylliannol i dwristiaid.

Amgueddfa Cymru – Cyfanswm y Gyllideb £98.724 miliwn - £77.074 miliwn o referniw, £7.2 miliwn nad yw'n arian parod ac £14.5 miliwn o gyfalaf dros dair blynedd

Bydd cyfanswm cyllid cyfalaf o £14.5 miliwn dros dair blynedd yn cefnogi blaenoriaethau datgarboneiddio a digideiddio ac yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ymwneud â gweithredu mewn adeiladau hanesyddol, yr angen i gadw ein casgliadau cenedlaethol yn ddiogel, a'r gofyniad i ddarparu mynediad cyhoeddus parhaus a diogel tra bod gwaith cynnal a chadw yn mynd rhagddo. Rhaid i Amgueddfa Cymru reoli'r heriau hyn ar draws saith safle gwahanol. Nid yw cyllid cynnal a chadw cyfalaf yn ymwneud â datrys problemau presennol yn unig – er bod ôl-groniad o waith cynnal a chadw cyfalaf ar hyn o bryd, mae hefyd yn ymwneud â chefnogi ffrydiau gwaith a fydd yn gwella profiad ymwelwyr ac yn cynyddu gallu'r cyrff i greu referniw ychwanegol drwy eu manau cyhoeddus sydd wedi'u hadnewyddu a'u huwchraddio.

Targed gros yr Amgueddfa ar gyfer creu incwm yw £5.5 miliwn, gyda tharged net o £1.3 miliwn. Nid yw Amgueddfa Cymru yn codi tâl – mae darparu mynediad am ddim i safleoedd Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn parhau i fod yn ymrwymiad gan y Llywodraeth. Mae hwn yn bolisi pwysig o ran dileu'r rhwystrau i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol ar gyfer pobl o gefndiroedd

³ Dylid nodi bod cyllid anghylchol ychwanegol o £0.750 miliwn wedi cael ei ddyrannu i'r Llyfrgell yn 2021-22 i gefnogi gweithredu argymhellion yr Adolygiad Pwrpasol.

difreintiedig a/neu'r rhai ar incwm isel. Mae'n annog ymweliadau mynych a defnydd cymunedol o safleoedd a chyfleusterau Amgueddfa Cymru.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru - Cyfanswm y Gyllideb £5.632 miliwn - £5.080 miliwn o refeniw, £0.402 miliwn o ddibrisiant nad yw'n arian parod a £0.150 miliwn o gyfalaf dros dair blynedd

Mae gan y Comisiwn rôl genedlaethol flaenllaw wrth ddatblygu gwerthfawrogiad o amgylchedd archeolegol, adeiledig a morol Cymru. Mae'r Comisiwn yn gofalu am gasgliad helaeth ac unigryw o ffotograffau, mapiau, delweddau, cyhoeddiadau ac adroddiadau gyda chymorth tîm o staff arbenigol ac mae'n darparu cynnwys, gwasanaethau ac adnoddau digidol o ansawdd uchel sydd ar gael yn gyfleus i gynulleidfaedd cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae pob un o'r tri sefydliad cenedlaethol hyn yn rhan o'r Bartneriaeth Cymru Hanesyddol. O ystyried y pwysau aruthrol ar ein cyllidebau refeniw, bydd mwy o angen byth yn 2022-23 am gydweithio rhwng yr holl gyrff o fewn y bartneriaeth Cymru Hanesyddol ac archwilio pa arbedion effeithlonrwydd y gellid eu sicrhau drwy gydweithio effeithiol: drwy bartneriaethau masnachol a'r posibilrwydd o reoli swyddogaethau swyddfa gefn ar y cyd.

3.10 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â Strategaethau Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd.

Byddwn yn creu ac yn cyhoeddi strategaeth ddiwylliant newydd i Gymru, a fydd yn diffinio ein blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys dyraniadau cyllid. Darperir cyllid yn y gyllideb Diwylliant Lleol a Chwaraeon dros y tair blynedd nesaf. Bydd y sectorau llyfrgelloedd ac amgueddfeydd yng Nghymru yn bwydo i mewn i'r broses o ddatblygu'r strategaeth ddiwylliant newydd.

Byddwn yn ymestyn ein rhaglen Grantiau Trawsnewid Cyfalaf i ariannu ystod ehangach o brosiectau a phrosiectau mwy amrywiol o ran gwerth, gan gynnwys prosiectau digidol, i gefnogi datgarboneiddio a'r rhai sy'n hybu cydraddoldeb. Mae cyllid ar gyfer hyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb diwylliant lleol a chwaraeon.

3.11 Cyllid a ddyrannwyd i weithredu yn ôl argymhellion yr Adolygiad o Amgueddfeydd Lleol

Bydd argymhellion yr [Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru-2015](#) yn cael eu cynnwys yn y strategaeth ddiwylliant.

Roedd hyfywedd yr argymhellion allweddol yn dibynnu ar greu tri chorff rhanbarthol. Mae hwn yn parhau i fod yn benderfyniad i awdurdodau lleol ledled Cymru. Archwiliodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad ymhellach drwy'r astudiaeth ddichonoldeb 'Creu a Rhedeg Amgueddfa Ranbarthol', a gwblhawyd yn haf 2019. Roedd yr Adolygiad gwreiddiol a'r astudiaeth ddichonoldeb hon yn cydnabod bod goblygiadau sylweddol o ran cost yn gysylltiedig â'r argymhellion ac ers 2015 nid oedd awdurdodau lleol o'r farn bod greu cyrff rhanbarthol yn flaenoriaeth.

Byddwn yn ymchwilio i gynllun Cymreig ar gyfer nodi gwrthrychau o arwyddocâd cenedlaethol o fewn casgliadau amgueddfeydd lleol, yn unol â'r argymhelliad ar 'Casgliad Cymru'. Bydd hyn yn

arwain at well dealltwriaeth a gwarchodaeth o'r casgliadau y mae'r sector lleol yn eu cadw mewn ymddiriedolaeth i'r cyhoedd, y mae rhai ohonynt ar yr un lefel â'r rhai a gedwir gan ein sefydliadau cenedlaethol o ran eu harwyddocâd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ffordd o fapio, deall a nodi'r asedau diwylliannol pwysig hynny.

3.12 Dyranïadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â Chyngor Celfyddydau Cymru

3.13 Dyranïadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â chyllid i hyrwyddo mynediad at y celfyddydau

Cyngor y Celfyddydau – Cyfanswm y Gyllideb £101.127 miliwn - £99.570 miliwn o refeniw, £0.357 miliwn nad yw'n arian parod ac £1.2 miliwn o gyfalaf dros dair blynedd

Gwneir ein priif buddsoddiad yn y sectorau celfyddydol drwy Gyngor Celfyddydau Cymru. Gan weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, byddwn yn parhau i gefnogi a hyrwyddo'r cyfraniad hanfodol y mae'r celfyddydau yn ei wneud i Gymru, i feithrin amgylchedd lle y gall y celfyddydau ffynnu – amgylchedd sy'n nodi ac yn meithrin talentau creadigol, ble bynnag y bont yng Nghymru, i'w llawn botensial. Mae blaenoriaethau penodol ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys hyrwyddo cydraddoldebau fel sylfaen ymrwymiad clir i ymestyn yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru a chryfhau gallu a gwytnwch y sector, gan alluogi talentau creadigol i ffynnu.

Yn y gyllideb hon rydym yn cynnal ein buddsoddiad yng Nghyngor Celfyddydau Cymru ac wedi gwneud cynnydd bach i gefnogi'r strategaeth ddiwylliant o 2022-23. Cyn y pandemig daeth mwy na phedair miliwn o bobl i ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan aelodau o Bortffolio Celfyddydau Cyngor Celfyddydau Cymru. Yn 2019-20, roedd 87% o oedolion Cymru wedi mynychu digwyddiadau celfyddydol, ac roedd 86% o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol. ⁴ Bydd cyllid yn helpu i gynhyrchu'r cyfalaf diwylliannol ar gyfer adferiad sy'n meithrin y diwydiannau creadigol â gwybodaeth, sgiliau a syniadau a pharhau i sefydlogi'r sector, gan gynnal cyflogaeth a chyfleoedd gwaith.

Mae cynyddu ac amrywio lefelau mynediad a chyfranogiad yn y celfyddydau yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn Llythyr Cylch Gwaith y Llywodraeth i Gyngor y Celfyddydau. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn defnyddio'r rhan fwyaf o'i gymorth grant i ariannu 67 o sefydliadau celfyddydol strategol allweddol a disgwyliwn iddynt barhau i flaenoriaethu gwaith mynediad ac ymgysylltu. Mae [Cynllun Corfforaethol 2018-23: Er Budd Pawb](#), sy'n gynllun pum mlynedd, yn pwysleisio'r ymrwymiad i ffocws cynyddol ar fynediad, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn nodi blaenoriaethau, gan gynnwys drwy'r Adolygiad Buddsoddi arfaethedig.

Mae ein buddsoddiad mewn prosiectau cyfalaf diwylliannol mawr, yn enwedig yn Theatr Clwyd a'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol wedi'i gynllunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a darparu gwell mynediad, gan gynnwys i ogledd a chanolbarth Cymru. Darperir cyllid ar gyfer y prosiectau hyn yn y gyllideb Diwylliant Lleol a Chwaraeon, ac mae'n amodol ar ystyried achosion busnes perthnasol. Ceir rhagor o fanylion yn adran 4.

3.14 Dyranïadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â chyllid i ddefnyddio'r celfyddydau a diwylliant i drechu tlodi.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn bartner strategol allweddol yn y rhaglen Cyfuno, gan gefnogi sefydliadau i gymryd rhan drwy ddarparu cyngor ymarferol a chyflwyno partneriaid Cyfuno ac

⁴ [Arolygon Blynyddol | Cyngor Celfyddydau Cymru](#)

artistiaid/sefydliadau celfyddydol i'r naill a'r llall yn eu hardaloedd. Lle y bo'n berthnasol, mae'n rhoi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd ac yn lledaenu gwybodaeth drwy ei e-newyddion, ei wefan ac i gleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru. Mae Cyngor y Celfyddydau yn parhau i estyn allan at y cymunedau difreintiedig hynny drwy gleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru ac mae hefyd yn ceisio ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cymunedau hynny.

Ceir rhagor o wybodaeth am Cyfuno yn adran 3.2.

3.15 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â chyllid i annog/alluogi sefydliadau'r celfyddydau i greu rhagor o'u hincwm eu hunain.

Mae Rhaglen Wytchwch Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cael ei phrofi'n sylweddol yn ystod y pandemig gyda chyllid sylweddol yn ofynnol i gadw nifer o Sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru yn solfent. Bydd angen gwaith monitro a chymorth pellach ar y rhaglen wytchwch nes bod sector y Celfyddydau yn gallu dychwelyd i sefyllfa ble y gall weithredu yn ôl yr arfer.

Mae Rhaglen Wytchwch Cyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau bod sefydliadau diwylliannol yn canolbwyntio mwy ar fusnes, yn rheoli ac yn gweithredu mewn modd proffesiynol, ac yn gallu datblygu a rheoli eu gweithgareddau i sicrhau sefydlogrwydd hirdymor a sicrwydd ariannol mewn hinsawdd ariannol heriol. Mae'r gronfa £2 filiwn hon wedi cefnogi 57 o blith y 67 o sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru i rannu arferion gorau, modelau cyflawni a threialu gwahanol ddulliau o ymdrin â chynaliadwyedd hirdymor. Mae hyn wedi bod yn hynod fuddiol i 85% o bortffolio referniw craidd Cyngor Celfyddydau Cymru sydd wedi ymuno â'r rhaglen.

Byddwn yn parhau i gefnogi Celfyddydau a Busnes Cymru, gan ei fod yn darparu cyswllt hanfodol rhwng busnes a'r celfyddydau, gan gynhyrchu arian i gefnogi artistiaid.

Y cyfryngau a darlledu

3.16 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad ag unrhyw gyllid ar gyfer y cyfryngau a darlledu.

Yn 2021-22 dyfarnwyd cyfanswm o £3.760 miliwn i Gyngor Llyfrau Cymru i gefnogi'r sector cyhoeddi yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys cyllid referniw ar gyfer Golwg Cyf a'r Gwasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg, Golwg 360. Mae sefydliadau cyhoeddi hefyd wedi cael cymorth drwy'r Gronfa Adfer Diwylliannol. Cyhoeddwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymru Greadigol a'r BBC i adeiladu ar y berthynas gadarnhaol bresennol rhwng y ddwy ochr ac i fanteisio ar gyfleoedd i weithio ar y cyd a chyda phartneriaid i gefnogi twf pellach y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Ffocws allweddol Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y BBC yw sicrhau'r budd mwyaf i Gymru o weithgarwch a buddsoddiad mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Yn 2022-23 mae cyllideb flynyddol o £3.760 miliwn wedi'i neilltuo er mwyn parhau i gyllido mentrau Cyngor Llyfrau Cymru, gan gynnwys y Gwasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg. Bydd gwaith i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yng Nghymru yn parhau, i gefnogi mwy o waith partneriaeth ar faterion darlledu a chyfleoedd ariannol ar gyfer sefydliadau Cymreig. Bydd Gweithgor Newyddiaduraeth er Lles y Cyhoedd Cymru hefyd yn darparu mecanwaith pwysig o ran nodi cyfleoedd pellach i gefnogi'r sector drwy fuddsoddiad ychwanegol wedi'i dargedu yn ystod y flwyddyn.

Byddwn hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru, ac yn enwedig sut y byddai'n cefnogi'r Gymraeg. Mae cyllid ychwanegol ar gyfer y mentrau hyn wedi cael ei neilltuo drwy'r Cytundeb Cydweithio.

3.17 Manylion gwariant o'r Gronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol, gan gynnwys sut y gwnaed y penderfyniadau cyllido hyn, a pha ganlyniad y bwriedir iddynt ei gyflawni.

Mae'r Gronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol bellach wedi cau ac ni ddarparwyd cyllid iddi yn y flwyddyn ariannol 2021-22. Roedd y Gronfa ar agor i geisiadau rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, a darparwyd cyllid brys COVID-19 ar gyfer y cyfnod Ebrill 2020 i Hydref 2020.

3.18 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad ag unrhyw gyllid ar gyfer datblygu Cymru Greadigol (gan gynnwys cyllid i'w ddsbarthu gan Cymru Greadigol)

Cyfanswm y dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft dros dair blynedd ar gyfer Cymru Greadigol yw £21.364 miliwn o refenwi a £15 miliwn o gyfalaf (gan gynnwys Cyngor Llyfrau Cymru). Yn 2021-22, cyfanswm dyraniad cyllideb Cymru Greadigol yw £12.427 miliwn. Mae diwydiannau creadigol yng Nghymru gan gynnwys y diwydiant cynhyrchu ffilm a theledu, y diwydiant cynhyrchu digidol a cherddorol yn cynrychioli un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru, gyda throsiant blynyddol o fwy na £2.2 biliwn gan gyflogi dros 56,000 o bobl, 40% yn fwy na 10 mlynedd yn ôl. Gwariodd cwmnïau ffilm a theledu tua £55 miliwn yng Nghymru yn 2018, yn cefnogi busnesau lleol a hefyd yn cyfrannu at dwristiaeth ac ymwybyddiaeth o Gymru. Fel un o bileri strategaeth ryngwladol y gyllideb, bydd y buddsoddiad ychwanegol o £1 filiwn yn cryfhau'r hyn sydd ar gael ac yn hyrwyddo ein henw da rhyngwladol ymhellach fel canolfan ragoriaeth ar gyfer cynhyrchu dramâu teledu o safon uchel, gyda stiwdios mawr fel Disney, Netflix a HBO i gyd yn dewis Cymru ar gyfer eu cynyrchiadau.

Mae sector y diwydiannau creadigol mewn sefyllfa eithriadol o dda i gefnogi'r adferiad economaidd ar ôl COVID ac amcangyfrifir y bydd nifer y swyddi creadigol newydd a gaiff eu creu yng Nghymru erbyn 2025 yn 8,051. Yn seiliedig ar y gyfradd twf o 22% mewn swyddi yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru rhwng 2011 a 2020 ac wrth barhau i ystyried effeithiau Covid-19 ar y sector, gallai'r ffigur hwn gynyddu i 12,386 erbyn 2029 gyda digon o wariant a buddsoddiad. Bydd cyllidebau cyfalaf a refeniw Cymru Greadigol yn cael eu targedu i sicrhau bod Cymru'n manteisio ar y cyfle i dyfu, yn ogystal â sicrhau'r manteision diwylliannol, cymdeithasol a llesiant ehangach mwyaf posibl.

Yn ystod y degawd diwethaf gwelwyd twf o 125% mewn gwariant cynhyrchu, gyda'r diwydiant Ffilm a Theledu yn un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn economi'r DU. Roedd gwariant cenedlaethol diwydiant cynhyrchu ffilm y DU ei hun yn £2 biliwn yn 2019, gan greu rhai o'r ffilmiau mwyaf poblogaidd yn fyd-eang. Mae Amazon, Apple TV, Disney+, Netflix ac eraill i gyd yn creu cynnwys newydd gyda chyllidebau gwerth biliynau o bunnoedd ac mae Cymru'n cael ei gweld fel lleoliad ffafriol iawn i gynhyrchu'r sioeau hyn. Mae'r potensial i ddenu'r brandiau rhyngwladol mawr hyn gyda gwarant ar fuddsoddiad o 10:1 o leiaf, yn ogystal â darparu cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaeth sylweddol yn gyfle gwirioneddol i Gymru. Ers mis Mawrth 2020 mae Cymru wedi buddsoddi tua £11 miliwn mewn cynyrchiadau a arweiniodd at wariant o £117 miliwn ar y gadwyn gyflenwi leol, criwiau a lleoliadau. Mae buddsoddiadau mewn cynyrchiadau yn darparu manteision sylweddol i Gymru, gan ddarparu gwaith i'n cymuned llawrydd fawr, ond hefyd o ran cynnwys pobl ifanc a newydd-ddyfodiaid yn y diwydiant mewn amrywiaeth o rolau megis crefftau, gwallt, colur, gwisgoedd, cyfrifeg a swyddi trydanol.

Fel corff cymharol newydd, mae Cymru Greadigol yn parhau i ddatblygu ei ddull o fesur llwyddiant. Mae Fframwaith Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael ei ddatblygu, drwy ymgynghori â Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol, sy'n mapio ein camau gweithredu i'r allbynnau tymor byrrach a'r canlyniadau tymor hwy yr ydym yn ceisio'u gwireddu o ganlyniad i'n hymyriadau. Bydd y Fframwaith hefyd yn cysylltu ein gweithgareddau â'r Nodau ac Amcanion Llesiant.

Bydd disgwyl i bawb sy'n derbyn cymorth drwy Cymru Greadigol gadw at egwyddorion cynaliadwyedd a darparu tystiolaeth o arferion sy'n dyheu am ddyfodol ddi-garbon + diwastraff ar gyfer ffilmiau wedi'u sgriptio, dramâu teledu o'r radd flaenaf a chynyrchiadau stiwdio. Ni fydd prosiectau nad ydynt yn bodloni'r egwyddorion cyllido sy'n cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu yn cael eu datblygu. Bydd disgwyl i bob rhaglen fuddsoddi fodloni set o feini prawf sgorio allweddol a gaiff eu pwysoli i adlewyrchu uchelgeisiau'r Rhaglen Lywodraethu (Sgiliau, gwaith teg, cynaliadwyedd). Byddwn yn sicrhau bod y Warant i Bobl Ifanc yn cael ei chynnwys ym mhob cynnig cyllid yn y dyfodol a thrwy hynny hwyluso ymrwymiad cadarn i fuddsoddi mewn sgiliau, hyfforddiant, arfer gorau wrth recriwtio a sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bawb. Bydd ein cyllid cynhyrchu hefyd yn cael ei ehangu yn 2021 i gynnwys prosiectau yn y genres gemau cyfrifiadurol, animeiddio a throchi.

Mae amrywiaeth a chynwysoldeb wedi'u gwreiddio yn ein holl weithgarwch ac mae Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol wedi pennu hyn yn brif flaenoriaeth iddo. Mae uchelgeisiau Cymru Greadigol i greu sector diwydiannau creadigol mwy amrywiol a chynhwysol yng Nghymru yn cyd-fynd yn glir ag ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu i sicrhau'r tegwch mwyaf i bawb, dileu cydraddoldeb a dathlu amrywiaeth. Byddwn yn cefnogi cyflawni'r weledigaeth a nodir yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol drafft. Rydym eisiau canlyniadau mwy cyfartal ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Bydd Cymru Greadigol yn cyflawni yn erbyn nifer o'r nodau a'r camau gweithredu a nodir yn y ddogfen.

Bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer darlledu a'r cyfryngau yn cefnogi camau gweithredu i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru ac archwilio creu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol, fel y nodir yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llafur a Phlaid Cymru. Mae angen gwneud rhagor o waith i gytuno ar sut y caiff y cyllid ychwanegol ei wario, ond ei nod fydd cefnogi lluosogrwydd y cyfryngau a mynediad at gynnwys effeithiol, cywir a pherthnasol i ddinasyddion Cymru ar draws platfformau'r cyfryngau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn yn ceisio mewnbwn ar ein defnydd o'r buddsoddiad ychwanegol gan Weithgor Newyddiaduraeth er Lles y Cyhoedd Cymru ac yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r gronfa beilot a gyflwynwyd yn 2021-22 i ddarparu argymhellion i Weinidogion ar sut y dylid dyrannu cyllid ychwanegol.

Bydd y buddsoddiad ychwanegol mewn sgiliau yn cefnogi datblygu a darparu cronfa sgiliau Cymru Greadigol. Bydd y gronfa newydd hon yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i greu bwrdd sgiliau creadigol a bydd gan y strwythur newydd rôl o ran dylunio'r gronfa ac argymhell prosiectau i Weinidogion eu cefnogi. Bydd y buddsoddiad yn mynd i'r afael ag angen am gymorth gyda sgiliau yn y sector a bydd gweithgaredd yn cyd-fynd â thystiolaeth, gan gynnwys canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Arolwg Sgrin Cymru. Un ffocws pwysig i'r gronfa fydd mynd i'r afael â thangynrychiolaeth a chefnogi llwybrau hygyrch i gefnogi sector dwyieithog mwy amrywiol a chynhwysol yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r gwaith sgiliau mae Cymru Greadigol wedi ymrwymo i wella safonau ac arferion yn y gweithle.

3.19 Diweddariad ar gynlluniau i roi rhagor o gymorth i newyddiaduraeth Saesneg “debyg i beth sydd gyda ni yn y Gymraeg”.

Mae Cymru Greadigol yn archwilio opsiynau i ddyrannu'r refeniw o £100,000 a neilltuwyd yng nghyllideb 2021-22 a'r blynyddoedd i ddod i gefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth newyddion yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn ystod y misoedd

diwethaf, yn unol â'r gofyniad i'r cyllid hwn gael ei ddarparu ar sail hyd braich gan y llywodraeth. Trafodwyd dulliau posibl o ddyrannu'r cyllid hwn yng nghyfarfod cyntaf Gweithgor Newyddiaduraeth Er Lles y Cyhoedd Cymru ym mis Tachwedd. Y bwriad yw cyhoeddi rhagor o fanylion am y defnydd o'r cyllid hwn yn y Flwyddyn Newydd.

Cymorth ar gyfer cynyrchiadau ffilm a theledu

3.20 Y ffigurau refeniw diweddaraf a'r rhagamcaniad refeniw, a'r cyfraddau meddiannaeth ar gyfer Stiwdios Pinewood/Stiwdios Seren ers dechrau'r Cytundeb Gwasanaethau Rheoli ym mis Tachwedd 2017.

Fel y cyfeiriwyd ato yn yr ymateb diwethaf i'r pwyllgor ar y mater hwn, daeth y cytundeb gyda Pinewood i ben ar 31 Mawrth 2020, a bu Llywodraeth Cymru yn rheoli'r gofod dros dro nes dod o hyd i denant tymor hwy.

Yn dilyn cyfnod negodi llwyddiannus, ar 1 Hydref 2020 ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gytundeb les 10 mlynedd gyda Great Point Media, cwmni buddsoddi o Lundain sydd â phortffolio o ddatblygiadau stiwdio yn yr Unol Daleithiau. Mae'r les hon ar delerau masnachol, ac mae'r manylion yn gyfrinachol. Fodd bynnag, mae'r Stiwdio wedi bod yn gartref i Havoc yn ddiweddar, un o gynyrchiadau Netflix sy'n cael ei gyfarwyddo gan y Cyfarwyddwr ffilmiau o Gymru, Gareth Evans. Rhagwelir y bydd y cynhyrchiad hwn yn gwario tua £20 miliwn yn yr economi leol yng Nghymru.

3.21 Y ffigurau diweddaraf ar gyfer y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiadau, yr elw o ganlyniad i fuddsoddiadau a gwariant yng Nghymru (wedi'i ddadansoddi yn ôl prosiect).

Mae crynodeb o'r buddsoddiadau ar ffurf benthyciadau unigol, y cyllid a adenillwyd hyd at fis Tachwedd 2021, a balans pob prosiect a gefnogwyd gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau wedi'i gynnwys yn **Atodiad B**.

3.22 Y ffigurau diweddaraf ar gyfer Cronfa Sgrin Cymru, gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiadau a gwariant yng Nghymru (wedi'i ddadansoddi yn ôl prosiect).

Cyfanswm gwerth y cynigion yw £40.063 miliwn a rhagwelir gwariant o £463.196 miliwn. Darperir rhestr o'r prosiectau yn **Atodiad C**.

3.23 Y ffigurau diweddaraf ynghylch benthyciad Llywodraeth Cymru i Stiwdios Bad Wolf gan gynnwys cyfanswm yr ad-daliadau a gwariant yng Nghymru (wedi'i feincnodi yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru).

Cyfanswm gwerth y buddsoddiad yn Stiwdios Bad Wolf yw £20.447 miliwn (gyda £2.1 miliwn eto i'w dynnu i lawr). Ym mis Tachwedd 2021 roedd gwariant gwirioneddol Cymru yn £133.496 miliwn yn erbyn y targed gwreiddiol o £133 miliwn. Cyfanswm y llog sy'n ddyledus ar y trefniant benthycia yw £1.064 miliwn a bydd yr ad-daliadau'n dechrau yn 2020-21. Darperir y manylion ariannol diweddaraf yn **Atodiad D**.

3.24 Chwaraeon

Mae ein gwaith ni a gwaith Chwaraeon Cymru yn cyfrannu at lawer o'r nodau llesiant ond yn bennaf Cymru Iachach a Chymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu. Mae manteision ffyrdd iach a gweithgar o fyw i'n hiechyd meddwl a chorfforol yn amlwg. Drwy gynyddu ein lefelau gweithgaredd a mabwysiadu mathau eraill o ymddygiad da o ran ein ffordd o fyw, gallwn oll nid yn unig leihau ein risg o ganser a chlefyd cardiofasgwlaidd ond hefyd wella ein llesiant meddyliol a lleihau'r risg o ddatblygu dementia. Profwyd bod gweithgaredd corfforol rheolaidd yn helpu i atal a thrin clefydau anhrosglwyddadwy fel clefyd y galon, strôc, diabetes a chanser y fron a chanser y colon. Mae hefyd yn helpu i atal gorbwysedd, magu pwysau a gordewdra a gall wella iechyd meddwl, ansawdd bywyd a llesiant.

Gall chwaraeon a hamdden egniol helpu i hybu gweithgaredd corfforol i bobl o bob oed a gallu. Mae chwarae egniol a hamdden yn bwysig ar gyfer plentyndod cynnar yn ogystal ag ar gyfer twf a datblygiad iach ymysg plant a'r glasoed. Gall addysg gorfforol o safon ac amgylcheddau ysgol cefnogol ddarparu llythrennedd corfforol a llythrennedd iechyd ar gyfer ffyrdd iach a gweithgar o fydd yn hirhoedlog. Gall oedolion hŷn elwa ar weithgarwch corfforol rheolaidd i gynnal iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol a galluogi heneiddio'n iach.

Mae cynllun strategol Chwaraeon Cymru; Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yn datgan yn glir y gall Cymru drawsnewid i fod yn genedl egniol, gan arwain at welliannau ar lefel y boblogaeth mewn canlyniadau iechyd, cyrhaeddiad addysgol a llesiant. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni hyn mae angen ymgysylltiad ar draws sectorau. Ni all chwaraeon, na Chwaraeon Cymru, gyflawni hyn ar eu pen eu hunain.

Er bod y gwaith a wneir gan Chwaraeon Cymru wedi'i anelu at allbynnau lluosog o ran y sector, mae meysydd allweddol ar draws mentrau'r llywodraeth lle mae modd cydweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, addysg a phobl ifanc ac iechyd a llesiant). Mae'r dull cydweithredol hwn yn cynnwys cymryd camau ar sawl lefel gan gynnwys:

- Cydweithio ar draws y system chwaraeon (er enghraifft, buddsoddi yn yr Urdd a'i waith ar draws partneriaid chwaraeon lleol a Chyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol i gefnogi "*tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu.*")
- Cydweithio amlsector ar lefel leol a rhanbarthol (er enghraifft, mae Chwaraeon Gogledd Cymru yn cynnwys yr holl brif bartneriaid yn y sector chwaraeon, iechyd, addysg, tai a'r trydydd sector sy'n gweithio ar gynllun ar y cyd y cytunwyd arno i wneud y mwyaf o gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau); a
- Cydweithio aml-sector ar lefel genedlaethol - er enghraifft ein gwaith wedi'i dargedu gydag Is-adran Gwella Iechyd Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol a hybu iechyd meddwl a chorfforol gwell.

Mae angen dileu'r rhwystrau i gyfranogiad i'r rhai sydd am gael mynediad i gyfleoedd chwaraeon ac mae darparu cyfleusterau i annog cyfranogiad trawsryweddol a lleiafrifoedd ethnig yn flaenoriaeth. Yn ogystal, mae gennym ymrwymadau i roi diwedd ar dlodi mislif ac mae angen uwchraddio'r cyfleusterau presennol i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yn ogystal â sicrhau bod unrhyw gyfleusterau newydd yn ymgorffori'r meddylfryd hwn yn eu dyluniadau ar draws pob agwedd ar yr agenda cydraddoldeb.

Mae ein cynlluniau cyllideb ar gyfer 2022-23 hefyd yn cynnwys buddsoddiad yng Nghynllun Nofio Am Ddim y Lluoedd Arfog a ddarperir gan awdurdodau lleol a chyfraniad at y Gemau Trefol a ddarperir gan yr Urdd.

4.0 Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

Ar 23 Medi 2021 ysgrifennodd y Cadeirydd atoch yn gofyn i chi nodi'r dyraniadau cyllid ar gyfer ymrwymiadau a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu dan y pennawd 'Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu'. Hynny yw

• sicrhau bod hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn ein sectorau diwylliannol a threftadaeth gan gynnwys yn ein Hamgueddfeydd Cenedlaethol [a Sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein diwylliant diwylliannol sector a rhwydwaith amgueddfeydd”];

Mae swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr cydraddoldeb, cyrff a noddur a rhanddeiliaid sectorau i ddatblygu nodau a champau gweithredu terfynol ar gyfer diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol drafft. Rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â blaenoriaethau allweddol, fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu: atebolrwydd; cyllido; dathlu amrywiaeth ddiwylliannol; gosod y naratif hanesyddol ac addysg.

Bwriad y nodau a'r camau gweithredu yr ydym yn eu cwblhau yw cydnabod a mynd i'r afael ag anfanteision y gorffennol a'r presennol a brofir gan grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; dileu gwahaniaethu a rhwystrau i fwynhad llawn hawliau ym mhob agwedd ar ddiwylliant, treftadaeth a chwaraeon; ac i gydnabod a dathlu amrywiaeth hiliol ac ethnig y gorffennol a'r presennol yng Nghymru. Y bwriad yw y bydd y nodau a'r gweithredoedd hyn nid yn unig yn rhyngweithredol o ran eu huchelgais ond yn drawsnewidiol ac yn gallu cyflawni newidiadau amlwg – gan arwain at ganlyniadau cyfartal i bobl o leiafrifoedd ethnig, yn enwedig menywod o leiafrifoedd ethnig, a mynediad teg at weithgareddau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon sy'n gwella canlyniadau i bob grŵp gwarchoddedig ac yn cefnogi arfer gorau. Mae trafodaethau'n parhau gyda'n cyrff a noddur, y sector lleol a phartneriaid eraill, a chyda sefydliadau a rhanddeiliaid cymunedol, i nodi a chytuno ar rolau penodol. Bydd y rhain yn amrywio, fesul achos. Er enghraifft, gallent gynnwys trafodaethau i lywio cwmplas neu ddatblygiad y gwaith sydd ei angen, neu arwain / cymryd rhan mewn cynnal gweithgaredd, neu mewn rhai achosion cymryd cyfrifoldeb am nodau neu gamau gweithredu penodol.

Rydym yn ariannu prosiectau gwerth £0.6 miliwn yn y flwyddyn 2021-22, fel cam cyntaf i gyflawni ein hymrwymiadau yn y Cynllun Gweithredu a byddwn yn adeiladu ar hyn dros y tair blynedd nesaf. Mae darpariaeth bellach yn y gyllideb Diwylliant Lleol a Chwaraeon ar gyfer referniw yn y dyfodol a chymorth ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf. Prif ffocws gweithgaredd cychwynnol y prosiect yw creu llwyfan i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r casgliadau a gedwir gan sefydliadau diwylliannol ledled y wlad, ynghyd â gwell dealltwriaeth o hanes y lleiafrifoedd ethnig y maent yn eu cynrychioli a chydabod y bylchau mewn cynrychiolaeth. Bydd hyn yn galluogi prosiectau a rhaglenni mwy ystyrion, parchus ac effeithiol yn y blynyddoedd i ddod. Bydd y sylfaen a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn helpu i sicrhau y gall gwaith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf gael ei arwain gan ein cymunedau amrywiol a mynd i'r afael â thangynrychiolaeth hysbys. Mae rhanddeiliaid fel Race Council Cymru wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â sicrhau bod y cynigion a ariennir yn berthnasol ac yn fuddiol i'n cymunedau amrywiol, ac maent hefyd yn datblygu cynigion pellach.

• sefydlu Cronfa Ymchwil a Datblygu Diwydiannau Creadigol

Mewn perthynas â sefydlu cronfa ymchwil a datblygu diwydiannau creadigol, ar hyn o bryd rydym yn bwriadu cefnogi rhaglen o gyllid ymchwil a datblygu sydd ar gael ledled Cymru, i'w darparu

rhwng 2022 a 2026 gan y prosiect 'media.cymru' a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae hon yn rhaglen a ariennir gan UKRI sy'n cael ei harwain gan Brifysgol Caerdydd, gan gefnogi twf y clwstwr cyfryngau yn ninas-ranbarth Caerdydd.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru o £500,000 yn cael ei ddefnyddio i ymestyn y rhaglen i Gymru gyfan.

Mae hon yn rhaglen hygyrch lle y gall unrhyw fusnes creadigol wneud cais am gymorth i ddatblygu ei waith ymchwil a datblygu, ar wahanol gamau, o dan strwythur a reolir. Ar hyn o bryd cynigir bod £3.5 miliwn yn cael ei ddyrannu i'r gweithgaredd hwn. Y cynllun bras yw y bydd gan y Llif Arloesedd dri mecanwaith ariannu allweddol:

- Lab Syniadau - 120 o brosiectau - cyfanswm cost o £30,000
- Cronfa Sbarduno - 60 o brosiectau (hyd at £10,000 fesul dyfarniad) - cyfanswm cost o £420,000
- Cronfa Ddatblygu - 60 o brosiectau (hyd at £50,000 fesul dyfarniad) - cyfanswm cost o £2.25 miliwn

Mae gweddill y cyllid, tuag £800,000, ar gyfer cronfeydd strategol, pwrpasol y gellir eu datblygu wrth i media.cymru fynd rhagddo. Ystyrir bod darparu'r cyllid hwn yn bodloni amcan y rhaglen lywodraethu o sefydlu cronfa ymchwil a datblygu ar gyfer y diwydiannau creadigol. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth ddiffinio'r rhaglen a hefyd wrth ddewis prosiectau sy'n ategu ein strategaethau a'n cymorth presennol. Mae gweithgareddau media.cymru a Chymru Greadigol yn ategu ei gilydd.

Mae'r ddarpariaeth a'r gronfa ymchwil a datblygu hefyd yn darparu cymorth cam cynnar hanfodol i fusnesau creadigol nad yw'n cael ei ddarparu'n hawdd drwy strwythurau arloesi presennol. Bydd busnesau'n gallu cael mynediad at gyllid dilynol o raglenni ariannu ategol eraill Cymru Greadigol.

• sefydlu Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol

Bydd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn buddsoddi £3 miliwn ychwanegol y flwyddyn dros gyfnod y Gyllideb hon i gefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu gwasanaeth cerddoriaeth cenedlaethol. Bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn cynyddu'r cymorth ariannol i sefydlu'r Gwasanaeth i £4.5 miliwn y flwyddyn, o'r MEG Addysg a'r Gymraeg.

Mae'r model ar gyfer y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, wedi'i gynllunio i gysylltu'n uniongyrchol â'r Cwricwlwm i Gymru, gyda'r nod o sicrhau y gall dysgwyr fanteisio ar gyfleoedd gwell ar gyfer gwersi a phrofiadau cerddoriaeth. Mae nodweddion allweddol y model yn cynnwys cynnig craidd o gymorth dysgu ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd gan ganolbwyntio ar ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a darpariaeth dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr.

• buddsoddi yn Theatr Clwyd

Mae buddsoddiadau yn ein prosiectau cyfalaf diwylliannol mawr yn amodol ar ystyried achosion busnes llawn. Mae cyllid dangogsol ar gyfer hyn wedi'i gynnwys o fewn y gyllideb Cymorth ar gyfer diwylliant lleol a chwaraeon.

Mae'r buddsoddiad yn Theatr Clwyd yn un o ymrwymadau'r rhaglen lywodraethu. Hyd yma mae cyllid o £3 miliwn i symud yr ailddatblygiad i gam 4 RIBA a pharatoi'r Achos Busnes Terfynol wedi'i oruchwylio gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno i Weinidogion i'w

ystyried yn fuan. Mae'r gyllideb gyfalaf Diwylliant Lleol a Chwaraeon yn cynnwys cyllid wedi'i glustnodi i ddatblygu Theatr Clwyd yn amodol ar ystyried yr achos busnes.

- **sefydlu Amgueddfa Bêl-droed Cymru**

Mae Cyngor Bwrdeistref Wrecsam wedi derbyn grant i ddatblygu'r cysyniad a'r cynnwys ar gyfer Amgueddfa Bêl-droed Cymru i gam 3 RIBA. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn wedyn yn pennu costau llawn y prosiect i greu Amgueddfa Bêl-droed newydd i Gymru, a chydabyddir y bydd angen cyllid cyfalaf o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer y datblygiad hwn. Disgwylir y bydd gofyniad refeniw parhaus. Mae amseriad y prosiect hwn yn dibynnu ar yr achos busnes a cheisiadau ariannu eraill. Mae'r cyllidebau Diwylliant Lleol a Chwaraeon yn cynnwys cyllid sydd wedi'i glustnodi i sefydlu'r Amgueddfa Bêl-droed, yn amodol ar ystyried achos busnes.

- **sefydlu Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol**

Awgrymodd yr astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd gan y Swyddfa Wledig dros Bensaerniaeth mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru mai model gwasgaredig gyda 8-10 o safleoedd sy'n cynnig mynediad lleol i gasgliadau pwrpasol neu deithiol fyddai'r model darparu a ffefrir ar gyfer y Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol. Canlyniad allweddol fyddai darparu mynediad lleol i'r casgliad cenedlaethol o gelf gyfoes sydd gan Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol. Mae gwaith manwl pellach ar ddatblygu'r model gwasgaredig wedi'i wneud ac mae wedi nodi gofyniad am fuddsoddiad cyfalaf untro o tua £5 miliwn dros 4 blynedd, ynghyd â gofyniad refeniw parhaus posibl. Mae'r cyllidebau Diwylliant Lleol a Chwaraeon yn cynnwys cyllid wedi'i glustnodi i sefydlu'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol, yn amodol ar ystyried achos busnes.

Mae gwaith cychwynnol i ddigideiddio casgliad Amgueddfa Cymru yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r asedau digidol hyn wedi cael eu defnyddio mewn nifer o ffyrdd arloesol yn ystod y pandemig i gynyddu mynediad i'r casgliad, er enghraifft erthyglau ar-lein a gwefan gyfranogol lle y gall pobl guradu 'y 100 gorau' o blith y casgliadau a lle y gall staff y GIG ddewis eitemau i'w hatgynhyrchu ar fformatau mawr i'w harddangos mewn ysbytai maes a chanolfannau brechu.

- **datblygu cynlluniau ar gyfer Amgueddfa'r Gogledd**

Mae ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis yn faes buddsoddi allweddol o ran cyfalaf. Bydd Amgueddfa Cymru yn datblygu'r safle yn ei phencadlys yng Ngogledd Cymru, a bydd Amgueddfa'r Gogledd wedi'i lleoli ar y safle hwn. Bydd hyn yn galluogi casgliadau sy'n ymwneud â'r rhanbarth i ddychwelyd i Ogledd Cymru. Mae'r cyhoeddiad diweddar am statws Treftadaeth y Byd UNESCO ar gyfer Tirweddau Llechi Gogledd-orllewin Cymru hefyd yn rhoi Amgueddfa Lechi Cymru mewn sefyllfa unigryw o allu gweithredu fel porth i'r tirweddau llechi gwasgaredig ar draws Gwynedd. Mae'r cyllidebau Diwylliant Lleol a Chwaraeon yn cynnwys cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer datblygu cynlluniau ar gyfer Amgueddfa'r Gogledd, yn amodol ar ystyried achos busnes llawn.

- **buddsoddiad mewn chwaraeon**

Bydd y blaenoriaethau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol a amlinellir yn y rhaglen lywodraethu yn parhau i arwain y sector a chydweithio ag eraill i annog a hwyluso cynnydd mewn gweithgarwch corfforol ymhlith y boblogaeth ac i fuddsoddi ymdrech ac adnoddau lle mae eu hangen fwyaf; lle ceir amrywiadau sylweddol mewn cyfranogiad a lle ceir diffyg cyfle neu ddyhead i fod yn egnïol. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi datblygiad chwaraeon cymunedol ledled Cymru

ac yn helpu chwaraeon i feithrin, datblygu a chefnogi talent chwaraeon i sicrhau llwyddiant sy'n ysbrydoli pobl ac yn atgyfnerthu ein hunaniaeth fel cenedl chwaraeon.

Mae strategaeth Chwaraeon Cymru yn cael ei llywio gan ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ymdrin â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a bydd gwrandio ar brofiadau bywyd pobl nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol yn nodwedd allweddol o'i waith yn y dyfodol. Bydd dull buddsoddi Chwaraeon Cymru yn ysgogi gweithredu o fewn y sector i hyrwyddo cyfle cyfartal yn rhagweithiol.

Mae'r buddsoddiad cyfalaf cysylltiedig yr ydym yn ei gynnig yn chwarae rhan annatod yn y gwaith o gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu a nodir uchod drwy ein prif gyfrwng cyflawni drwy Chwaraeon Cymru.

Mae'r defnydd o ffrydiau cyllid cyfalaf presennol Chwaraeon Cymru drwy CrowdFunder a Cronfa Cymru Actif yn sicrhau buddsoddiad cyfalaf ar draws y rhwydwaith llawr gwlad ar gyfer gwelliannau ar y cae ac oddi ar y cae. Mae'r cronfeydd hyn, sydd wedi'u targedu at amddifadedd ac anghydraddoldebau ehangach, nid yn unig wedi profi eu bod yn hyrwyddo mynediad cyfartal i chwaraeon, ond maent wedi cyflawni yn erbyn yr agenda hon. Er bod hyn yn parhau ar gyfer 2021-22 o ran ailgodi o effeithiau'r pandemig, bydd buddsoddiad yn y dyfodol yn caniatáu pontio i'r cyfnod hwn gan feithrin mwy o wydnwch a chydweithio ar draws y cronfeydd hyn.

Mae eu ffrydiau cyfalaf presennol hefyd yn caniatáu buddsoddi mewn caeau 3G drwy'r grŵp cydweithredu ATP, wrth inni barhau i gwmpasu, cynllunio a chyflawni yn erbyn yr agenda cyfleusterau chwaraeon elît. Mae hyn yn ychwanegol at y buddsoddiad uniongyrchol arfaethedig yn y Canolfannau Cenedlaethol yng Nghaerdydd a Phlas Menai.

Atodiad A - Trosolwg o Gyllid Diwylliant a Threftadaeth 2020-21 i 2024-25

ADNODDAU		2020-21					Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-23				
		2020-21		2021-22			2022-23	2023-24	2024-25	CYFAN-SWM: £000	
Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r BEL	Y Drydedd Gyllideb Atodol £'000	Alldro Terfynol 2021-22 £'000	Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000	Y Gyllideb Atodol Gyntaf £'000	Rhagolwg £'000	Cynllun-iau newydd y Gyllideb Ddrafft £'000	Cynllun-iau newydd y Gyllideb Ddrafft £'000	Cynllun-iau newydd y Gyllideb Ddrafft £'000		
Cymorth ar gyfer Diwylliant a'r Celfyddydau	Cyngor Celfyddydau Cymru	49,842	48,856	32,042	40,992	40,983	32,527	33,142	34,258	99,927	
	Amgueddfa Cymru	25,660	23,529	27,110	27,110	27,110	27,486	27,962	28,826	84,274	
	Llyfrgell Genedlaethol Cymru	11,694	12,249	12,894	12,894	12,894	12,310	12,520	12,901	37,731	
	Cymorth ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon Lleol	63,275	60,356	2,817	24,017	23,517	5,217	6,167	8,567	19,951	
	Cymru Greadigol	2,978	2,637	1,708	1,708	1,788	7,038	7,138	7,188	21,364	
Cyfanswm y Cymorth ar gyfer Diwylliant a'r Celfyddydau		153,449	147,627	76,571	106,721	106,292	84,578	86,929	91,740	263,247	
Y Cyfryngau a Chyhoeddi	Cyngor Llyfrau Cymru	3,730	3,730	3,730	3,730	3,730	Y Cyfryngau a Chyhoeddi wedi'u cyfuno â WeF Cymru Greadigol 2022-23				
Cyfanswm y Cyfryngau a Chyhoeddi		3,730	3,730	3,730	3,730	3,730					
Cefnogi'r Amgylchedd Hanesyddol	Cadw	17,751	21,165	13,411	13,360	15,360	13,781	13,983	14,360	42,124	
	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	834	834	594	594	594	594	594	594	1,782	
	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	1,791	1,629	1,764	1,764	1,764	1,788	1,819	1,875	5,482	
Cyfanswm y Cymorth ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol		20,376	23,628	15,769	15,718	17,718	16,163	16,396	16,829	49,388	
Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol	Chwaraeon Cymru	34,947	32,386	22,417	22,717	22,717	22,746	23,162	23,918	69,826	
Cyfanswm y Cymorth ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol		34,947	32,386	22,417	22,717	22,717	22,746	23,162	23,918	69,826	
CYFANSWM YR ADNODDAU		212,502	207,371	118,487	148,886	148,457	123,487	126,487	132,487	382,461	

CYFALAF		CYFALAF					Cyllideb Ddrafft 2022-23				CYFAN-SWM: £'000
		2020-21		2021-22			2022-23	2023-24	2024-25		
Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r BEL	Y Drydedd Gyllideb Atodol £'000	Alldro Terfynol 2021-22 £'000	Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000	Y Gyllideb Atodol Gyntaf £'000	Rhagolwg £'000	Cynllun-iau newydd y Gyllideb Ddrafft £'000	Cynllun-iau newydd y Gyllideb Ddrafft £'000	Cynllun-iau newydd y Gyllideb Ddrafft £'000		
Cymorth ar gyfer Diwylliant a'r Celfyddydau	Cyngor Celfyddydau Cymru	4,702	4,301	1,575	1,575	1,575	400	400	400	1,200	
	Amgueddfa Cymru	4,267	3,857	6,697	6,697	6,697	4,500	5,000	5,000	14,500	
	Llyfrgell Genedlaethol Cymru	3,095	3,067	3,695	4,695	4,695	2,500	2,000	2,000	6,500	
	Cymorth ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon Lleol	2,513	2,168	1,430	1,430	1,430	11,700	21,500	24,700	57,900	
	Creadigol (Cronfa Dyfodol yr Economi)	5,989	6,747	6,989	6,989	6,994	5,000	5,000	5,000	15,000	
Cyfanswm y Cymorth ar gyfer Diwylliant a'r Celfyddydau		20,566	20,140	20,386	21,386	21,391	24,100	33,900	37,100	95,100	
Y Cyfryngau a Chyhoeddi	Cyngor Llyfrau Cymru	780	630	30	30	180	Y Cyfryngau a Chyhoeddi wedi'u cyfuno â WeF Cymru Greadigol 2022-23				
Cyfanswm y Cymorth ar gyfer y Cyfryngau a Chyhoeddi		780	630	30	30	180					
Cefnogi'r Amgylchedd Hanesyddol	Cadw	5,011	5,063	8,731	8,431	8,431	10,000	10,000	10,000	30,000	
	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	195	195	375	375	375	1,200	200	200	1,600	
	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	35	44	15	15	15	50	50	50	150	
Cyfanswm y Cymorth ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol		5,241	5,302	9,121	8,821	8,821	11,250	10,250	10,250	31,750	
Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol	Chwaraeon Cymru	3,579	3,595	8,629	8,629	8,629	8,000	8,000	8,000	24,000	
Cyfanswm y Cymorth ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol		3,579	3,595	8,629	8,629	8,629	8,000	8,000	8,000	24,000	
CYFANSWM CYFALAF		30,166	29,667	38,166	38,866	39,021	43,350	52,150	55,350	150,850	
CYFANSWM ADNODDAU A CHYFALAF		242,668	237,038	156,653	187,752	187,478	166,837	178,637	187,837	533,311	

**Gwariant a
Reolir yn
Flynyddol
(AME)**

		Cyllideb Ddrafft 2022-23								
		2020-21		2021-22			2022-23	2023-24	2024-25	CYFAN-SWM: £'000
Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r BEL	Y Drydedd Gyllideb Atodol £'000 (Chwef 21)	Alldro Terfynol 2021-22 £'000	Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 (Maw 21)	Y Gyllideb Atodol Gyntaf £'000	Rhagolwg £'000	Cynllun-iau newydd y Gyllideb Ddrafft £'000	Cynllun-iau newydd y Gyllideb Ddrafft £'000	Cynllun-iau newydd y Gyllideb Ddrafft £'000	
Pensiynau Cyrff a Noddir	Amgueddfa Cymru - Darpariaeth Pensiwn Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru - AME	9,000	9,000	9,000	9,000	9,000	9,000	9,000	9,000	27,000
	Darpariaeth Pensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru - AME	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000	15,000
	Darpariaeth Pensiwn Chwaraeon Cymru – AME	2,000	2,000	2,000	2,000	2,000	2,000	2,000	2,000	6,000
CYFANSWM AME		16,000	16,000	16,000	16,000	16,000	16,000	16,000	16,000	48,000

Atodiad B - PROSIECTAU A ARIENNIR GAN Y GYLLIDEB BUDDSODDI YN Y CYFRYNGAU (11 Tachwedd 2020)

Prosiect	Gwerth y Buddsoddiad £miliwn	Swm a adenillwyd £miliwn	Swm Net a Enillwyd / (a Gollwyd) hyd yma £m	Gwariant wedi'i Dargedu yng Nghymru £m	Gwariant yng Nghymru hyd yma £m
O dan Reolaeth Pinewood					
Take Down	3.144	1.11	(2.034)	1	1.089
Their Finest	2	2.05	0.05	1.3	1.618
The Collection	1.750[1]	0.556	(1.194)	5.5	5.187
Show Dogs	1.566[2]	0	(1.566)	4.737	4.338
Journey's End	0.85	0.631	(0.219)	1.5	0.903
Don't Knock Twice[3]	0.63	0.655	0.025	0.63	0.641
Minotaur	0.026	0	(0.026)		Amh[4]
Lionel the First	0.025	0	(0.025)	Amh	Amh[5]
Cyfanswm	9.991	5.002	(4.989)	14.667	13.776
O dan Reolaeth Llywodraeth Cymru					
Trampires[6]	2	0	(2)	1.6	1.621
Eternal Beauty	1.05	0.877	(0.173)	1.214	1.255
Bang	0.35	0	(0.35)	1.5	2.562
Tiny Rebel	0.318	0.03	(0.288)	0.25	0.26
Goose Green	0.025	0	(0.025)	Amh	Amh[7]
Almost Never (True Believers gynt)	0.622	0	(0.622)	2.118	2.118
Six Minutes To Midnight	0.75	0.556	(0.194)	3.88	3.52
Cyfanswm	5.115	1.463	(3.652)	10.562	11.336
Cyfanswm Cyffredinol	15.106	6.465	(8.641)	25.229	25.112

[\[1\] Mae'r buddsoddiad yn cynnwys grant o £600,000 o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau](#)

[\[2\] Mae'r buddsoddiad yn cynnwys grant o £362,000 o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau](#)

[\[3\] Neilltuwyd grant o £75,000 hefyd i Don't Knock Twice o dan Gynllun Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru](#)

[\[4\] Nid yw arian datblygu'n cynnwys ymrwymiad Gwariant yng Nghymru](#)

[\[5\] Nid yw arian datblygu'n cynnwys ymrwymiad Gwariant yng Nghymru](#)

[\[6\] Cafodd Trampires £652,572 o arian grant hefyd o dan gynllun Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru.](#)

[\[7\] Nid yw arian datblygu'n cynnwys ymrwymiad Gwariant yng Nghymru](#)

Atodiad C - BUDDSODDIAD YNG NGHONFA SGRIN CYMRU (11 Tachwedd 2020)

Blwyddyn Ariannol y Cynnig	Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV)	Teitl Cynhyrchu (Cronfa Sgrin Cymru)	Gwerth y Cynnig £m	Gwariant a Ragwelir £m
2012/13	Tonto Films and Television Ltd	Da Vinci's Demons, Cyfres 1	0.495	3.823
2012/13	Urban Myth Films	Atlantis, Cyfres 1	0.25	4.026
2012/13	Pesky Productions Ltd (Boj & Buddies)	Boj & Buddies	0.2	1.003
2012/13	Fiction Factory (Hinterland Films Ltd)	Y Gwyll/Hinterland, Cyfres 1	0.215	3.691
2012/13	Tonto Films and Television Ltd (DVDS2)	Da Vinci's Demons, Cyfres 2	0.99	15
2013/14	Avanti Media Group	Wonder World	*0.127	0.763
2013/14	Urban Myth Films	Atlantis, Cyfres 2	0.25	4.026
2013/14	Lime Pictures Limited	Rocket's Island	*0.143	0.966
2013/14	Mirror Productions	Petroleum Spirit	0.051	0.358
2013/14	Modern Television	A Poet In New York	0.053	0.855
2013/14	Adastra Creative and Shrinking Cap Productions Ltd	Grandpa in my pocket	0.129	1.612
2013/14	Three Stones Media (The Rastamouse company)	Rastamouse, Cyfres 4	0.145	0.885
2013/14	Pure Grass Films Ltd (Drake Equation Ltd)	The Drake Equation	*0.74	5.208
2014/15	Lime Pictures Limited	Rocket's Island, Cyfres 4	0.07	0.7
2013/14	Lupus Films	Toot the Tiny Tugboat / Ethel & Ernest	0.55	3.034
2013/14	Green Bay Media Ltd	Castle Builders	0.045	0.32
2013/14	YJB Films (From a Jack to a King Ltd)	From a Jack to a King	0.1	1.229
2013/14	Hartswood Television Ltd	Lady Chatterleys Lover	0.125	0.813
2014/15	Gritty Realism Productions Ltd	Heart of Darkness	0.15	1.794
2014/15	TCFTV UK Productions	The Bastard Executioner	2.5	10
2014/15	Cwmni Da Cyf	Country Fair	0.125	1.019
2014/15	Animortal Studio (Trampires Ltd)	Trampires	0.674	6.738
2014/15	Tiger Aspect Productions (Tiger Aspect (D&F) Ltd)	Decline and Fall	0.1	1.8
2014/15	RF Movie Productions Ltd	Robin Friday - The Movie	*0.2	1.95
2014/15	Touchpaper Television Ltd	Coming up	0.08	0.809
2014/15	Fiction Factory Films Ltd (Hinterland Films 2 Ltd)	Y Gwyll/Hinterland 2	0.304	5.3
2014/15	Fiction Factory Films Ltd (Hinterland Films 3 Ltd)	Y Gwyll/Hinterland 3	0.25	4.21
2015/16	Bad Wolf Ltd	Bad Wolf Productions	9	133
2015/16	Hartswood Films (Sherlock TV Ltd)	Sherlock, Tymor 4	0.24	2.409
2015/16	Heel Stone Pictures Ltd	Crossing the Border	0.202	2.519

Blwyddyn Ariannol y Cynnig	Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV)	Teitl Cynhyrchu (Cronfa Sgrin Cymru)	Gwerth y Cynnig £m	Gwariant a Ragwelir £m
2015/16	Ninth Floor UK Productions Limited	Will, Tymor 1	1.5	18.761
2015/16	Lookout Point Ltd (Pinewood Films 14)	The Collection	0.6	5.5
2015/16	Red & Black Films (Don't Knock Twice Ltd)	Don't Knock Twice	0.075	0.63
2015/16	Vertigo Television Ltd	Britannia VFX	1.1	11.149
2016/17	Beakus Ltd	Toggle Top	0.076	0.944
2016/17	Cloth Cat Animation Ltd (Clothcat LBB Ltd)	Luo Bao Bai	0.225	3.183
2016/17	Riverstone Pictures (Showdogs Ltd)	Showdogs	0.362	4.737
2016/17	Vox Pictures (Keeping Faith Ltd)	Un Bore Mercher/Keeping Faith	0.328	4.25
2016/17	Green Bay Media	Mountains and Life	0.03	0.54
2016/17	New Pictures (Requiem Productions Ltd)	Requiem	0.4	5.016
2016/17	Severn Screen Ltd (Apostle Films Ltd)	Apostle	0.385	5.767
2017/18	World Productions (BTK 2016 Ltd)	Born to Kill	0.2	2.5
2017/18	The Forge Entertainment Ltd	Kiri	0.2	2.382
2017/18	Coracle Pictures Limited (Denmark)	Denmark	0.085	1.383
2017/18	Rondo Media Cyf	The Wall	0.045	0.363
2017/18	Touchpaper Television Ltd	4Stories	*0.04	0.631
2017/18	Illuminated Productions Ltd	The Rubbish World of Dave Spud	0.09	0.906
2018/19	Eleven Film Ltd	Schooled	0.485	3.879
2018/19	Boom Cymru	15 diwrnod	0.089	1.074
2018/19	Dream Horse Films Limited, Popara Films Ltd a Popara Films (DH) Limited	Dream Horse	0.35	4.384
2018/19	JJ Productions Ltd (Short Form Film)	Jamie Johnson, Cyfres 4	0.156	1.927
2018/19	Mad as Birds Ltd and Reliance Entertainment Productions Six Ltd	Six Minutes To Midnight	0.4	3.879
2018/19	Keeping Faith (Series 2) Productions Ltd (Vox Pictures)	Un Bore Mercher/Keeping Faith, Cyfres 2	0.3	4.654
2018/19	Hat Trick Productions	Warren	0.109	1.304
2018/19	Monterey Productions Ltd (HBO)	Brooklyn	0.22	2.412
2018/19	GOL Production Ltd (Pulse Films)	Gangs of London	0.35	4.209
2018/19	Iele Productions	Merched Parchus	0.041	0.444
2018/19	Blacklight TV	4Stories, Cyfres 2	0.102	1.574
2019/20	All That Limit	Brave New World	2	20
2019/20	Joio	Bang, Cyfres 2	0.19	2.3
2019/20	JJ Productions Ltd (Short Form Film)	Jamie Johnson, Cyfres 5	0.06	1.827

Blwyddyn Ariannol y Cynnig	Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV)	Teitl Cynhyrchu (Cronfa Sgrin Cymru)	Gwerth y Cynnig £m	Gwariant a Ragwelir £m
2019/20	Vox Pictures (Keeping Faith Series 3)	Un Bore Mercher/Keeping Faith, Cyfres 3	0.240	3.965
2019/20	WP Productions Ltd (World Productions)	The Pembrokeshire Murders	0.200	2.135
2020/21	Hartswood TV Ltd	Roald & Beatrix: The Case Of The Curious Mouse	0.225	2.247
2020/21	Illuminated Productions Ltd	The Rubbish World of Dave Spud, Cyfres 2	0.140	1.407
2020/21	Joio Cyf (Joio (Bang 2) Ltd)	Bang, Cyfres 2	0.190	2.302
2020/21	Lupus Films (Kensukes Kingdom Ltd)	Kensukes Kingdom	0.100	0.841
2020/21	Little Door Productions Ltd (Little Door (The Pact) Ltd)	The Pact	0.595	5.953
2020/21	One Tribe TV Limited	Wonders of the Celtic Deep	0.077	0.618
2020/21	Eleven Films (Starco TV 3 Ltd)	Sex Education, Cyfres 3	0.432	5.186
2020/21	WOTW2 Ltd- Urban Myth films	War of the Worlds, Cyfres 2	0.750	7.344
2020/21	Barking Lion Productions	The Trapper Keeper	4	40.159
2020/21	Bad Wolf (HDM3) Ltd	His Dark Materials, Tymor 3	2	21.075
2020/21	Havoc Film Ltd	Havoc	2.150	25.004
2020/21	Short Form Film (JJ Productions) Ltd.	Jamie Johnson, Cyfres 6 a 7	0.335	4.651
2021/22	REP Productions SF Limited	The Almond and the Seahorse	0.100	0.935
2021/22	Cwmni Da Cyf	Rain Stories	0.042	0.337
2021/22	The Light Ltd/Y Golau Cyf	The Light/Y Golau	0.528	5.289
CYFANSWM (ac eithrio cynigion wedi'u tynnu'n ôl*)			40.063	463.196

Atodiad D – BUDDSODDIAD YN STIWDIOS BAD WOLF (Tachwedd 2021)

Buddsoddiad	Gwerth y Buddsoddiad (£)	Tynnwyd i lawr hyd yma (£)	I'w dynnu i lawr yn y blynyddoedd i ddod (£)	Llog cronedig @ 7.52% hyd yma (£)	Llog wedi'i dalu @ 7.52% hyd yma (£)	Arian cyfatebol Bad Wolf (£)	Gwariant yng Nghymru a ragwelwyd (£)	Gwariant a gyflawnwyd yng Nghymru (£)
Cyllid ad-daladwy	4,500,000	4,500,000	-	1,063,937	51,481	-	54,000,000	54,000,000
Grant Pellach	4,500,000	4,399,453	100,457	Amh	Amh	-	79,000,000	79,496,087
Prynu Adeiladau 1 a 2, Parc Trident	6,000,000	6,000,000	-	Amh	Amh	-	Amh	Amh
Ffioedd caffael	30,000	30,000	-	Amh	Amh	-	Amh	Amh
Gwaith gosod ffitiadau stiwdio	2,650,000	2,650,000	-	Amh	Amh	2,800,000	Amh	Amh
Gwaith gosod ffitiadau Stiwdio Pinewood Cymru	667,588	667,588	-	Amh	Amh	692,412	Amh	Amh
SAWS	80,000	40,000	-	Amh	Amh	-	Amh	Amh
Blaendal	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh	250,000	Amh	Amh
Rhwydwaith Drama Ieuenctid	20,000	20,000	-	-	Amh	-	Amh	Amh
His Dark Materials, Tymor 3	2,000,000	0	2,000,000	-	-	-		
Cyfanswm	20,447,588	18,307,041	2,100,457	1,063,937	51,481	3,742,412	154,074,843	133,496,087